Estyn


estyn.llyw.cymru

estyn.gov.wales

# Crynodeb o ganfyddiadau ein hadolygiadau thematig cenedlaethol

2019/2020












**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- ysgolion pob oed
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau awdurdod addysg lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
| --- | --- |


| | |
| --- | --- |
| **Rhagair** | **1** |
| **Darpariaeth ar gyfer disgyblion oedran ysgol o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr** | **2** |
| **Gofalwyr ifanc: Darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc mewn ysgolion uwchradd, colegau addysg bellach ac unedau cyfeirio disgyblion ledled Cymru** | **6** |
| **Iach a hapus: Effaith yr ysgol ar iechyd a llesiant disgyblion** | **8** |
| **Ysgolion ffederal: Nodweddion cyffredin ffedereiddio effeithiol** | **11** |
| **Arferion cofrestru disgyblion** | **14** |
| **Adnabod eich plant – cefnogi disgyblion sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod** | **16** |
| **Disgyblion ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion prif ffrwd** | **20** |
| **Atal – pa mor dda y mae ysgolion a gynhelir yn gweithredu eu dyletswyddau o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015** | **23** |
| **Partneriaethau â chyflogwyr mewn ysgolion uwchradd ac arbennig** | **28** |
| **Pwyllgorau rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion** | **30** |
| **Cymorth effeithiol yn yr ysgol ar gyfer disgyblion sydd dan anfantais a disgyblion sy'n agored i niwed** | **32** |
| **Datblygu arweinyddiaeth – astudiaethau achos o ddysgu proffesiynol ar gyfer arweinyddiaeth ysgolion** | **34** |


# Rhagair

Rwy'n gobeithio y bydd y crynodeb hwn, a'r adroddiadau sy'n sail iddo, yn addysgiadol ac yn berthnasol i chi. Mae adroddiadau thematig Estyn a gyhoeddwyd yn 2019, ac ar ddechrau 2020, yn cwmpasu ystod o agweddau pwysig ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Maent yn adrodd ar safonau a darpariaeth ar draws ystod o sectorau a themâu addysg, gan gynnwys effaith ysgolion ar iechyd a lles disgyblion, darpariaeth i ofalwyr ifanc mewn ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach, darpariaeth effeithiol i gynorthwyo disgyblion sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, a phartneriaethau ysgolion a cholegau â chyflogwyr.

Mae adroddiadau thematig Estyn yn mynd i'r afael â materion sy'n hynod bwysig i'r rhai sy'n llunio polisïau. Mae'r llythyr cylch gwaith blynyddol at PAEM gan Ysgrifennydd y Cabinet yn ystyried blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru, ac yn cynnwys arolygon ag astudiaethau achos o arfer orau mewn sefydlu ffederasiynau ysgolion, cynorthwyo disgyblion difreintiedig a'r rhai sy'n agored i niwed, a darpariaeth effeithiol i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA) mewn ysgolion cynradd, uwchradd a phob oed a gynhelir. Gwnaethom gyhoeddi arolygon hefyd yn ymwneud â phwyllgorau rheoli UCDau, Atal (PREVENT), a darpariaeth ysgolion uwchradd i ddisgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Bwriad ein hadroddiadau yw annog meddylfryd ehangach a chyfrannu at drafodaethau cyfredol mewn meysydd polisi, fel cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru, yn ogystal â rhannu astudiaethau achos arfer effeithiol ar draws pob sector. Mae'r rhaglen o adroddiadau thematig sydd ar ddod yn ystod 2020 yn argoeli i fod yr un mor berthnasol, gydag adolygiadau ar y gweill yn canolbwyntio ar ystod eang o feysydd, fel paratoadau ysgolion uwchradd i roi Cwricwlwm i Gymru ar waith, sefydlu ysgolion pob oed, caffael iaith mewn lleoliadau nas cynhelir ac ysgolion cynradd, hyfforddiant ieuenctid a chymunedol, hanes a diwylliant Cymru, Safon Uwch mewn astudiaethau cymdeithasol, darpariaeth ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol, a Chymraeg Safon Uwch.

Rydym yn gobeithio bod yr adroddiadau thematig hyn yn cael eu defnyddio'n eang gan ddarparwyr i wella eu harfer a gwella deilliannau i ddysgwyr yng Nghymru. Mae'r crynodeb hwn o'r holl adroddiadau thematig a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn galendr hon yn dod â'r prif ganfyddiadau a'r argymhellion o bob adroddiad at ei gilydd, er hwylustod. Mae'r adroddiadau llawn, gan gynnwys astudiaethau achos, ar gael ar ein gwefan: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig.



**Meilyr Rowlands**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Darpariaeth ar gyfer disgyblion oedran ysgol o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

## Safonau

1 Ledled Cymru, tua hanner yn unig o ddisgyblion Blwyddyn 6 o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n symud ymlaen i addysg uwchradd ym Mlwyddyn 7. Mae'r rhesymau am hyn yn cynnwys pryderon gan rieni:

- y bydd eu plant yn cael eu bwlio yn yr ysgol uwchradd
- y bydd eu diwylliant yn cael ei wanhau yn sgil cyswllt â'r gymuned sefydlog
- mai ychydig iawn sydd yng nghwricwlwm yr ysgol i baratoi eu plant ar gyfer gwaith neu ar gyfer cadw cartref

2 Mae tua hanner yr awdurdodau lleol yn gwneud trefniadau i wella cyfraddau pontio ar gyfer disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, er enghraifft trwy drefnu ymweliadau pontio ychwanegol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'u rhieni. At ei gilydd, ychydig iawn o effaith y mae'r trefniadau hyn wedi'i chael ar wella cyfraddau pontio ar gyfer disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

3 Er 2011, mae niferoedd y disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn ysgolion uwchradd wedi cynyddu bron 35%. Fodd bynnag, efallai nad yw'r data yn rhoi darlun cywir, gan fod lleiafrif o rieni a disgyblion yn dweud nad ydynt yn ymgysylltu â'r cymunedau hyn gan eu bod yn ofni cael eu herlid neu'u bwlio.

4 Polisïau gwrthfwlio a chydraddoldeb tua hanner yr ysgolion yn unig sy'n ystyried anghenion penodol disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, er enghraifft o ran cydnabod sut gallai eu diwylliant a'u traddodiadau effeithio ar eu presenoldeb.

5 Mae llawer o ysgolion yn codi ymwybyddiaeth am ddiwylliant a ffordd o fyw Sipsiwn, Roma a Theithwyr trwy wasanaethau, trwy wersi addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh), a thrwy ddathlu digwyddiadau penodol fel mis hanes Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw ysgolion yn hyrwyddo diwylliant Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ddigon da ar draws rhan ffurfiol y cwricwlwm ysgol sy'n seiliedig ar bynciau.

6 Mae presenoldeb disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn ysgolion uwchradd wedi gwella dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, er bod eu presenoldeb yn rhy isel, ac ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer disgyblion oedran ysgol uwchradd yng Nghymru ar y cyfan.

7 Mae tua hanner yr ysgolion a'r awdurdodau lleol yn credu bod anawsterau cludiant yn effeithio ar bresenoldeb disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae ychydig o safleoedd ymhell oddi wrth lwybrau cludiant arferol ac yn agos at briffyrdd neu ardaloedd diwydiannol, sy'n golygu bod cerdded i'r ysgol yn beryglus,

gan nad oes llwybrau troed yn aml. Mae lleiafrif o awdurdodau lleol yn darparu cludiant i ddisgyblion i helpu â phresenoldeb. Pan fo’r ysgol neu’r awdurdod lleol yn cynnig cludiant, mae cyfraddau presenoldeb ac ymgysylltiad disgyblion yn llawer uwch.

8 Mae gan fwyafrif o awdurdodau lleol ac ysgolion gynlluniau cymorth bugeiliol (CCBau) ar gyfer disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio CCBau yn briodol i gefnogi presenoldeb, gan gynnwys gosod targedau realistig. Mae disgyblion, rhieni, ysgolion ac asiantaethau allanol yn cytuno ar y strategaethau ar gyfer gwella. Mae awdurdodau lleol yn monitro’r strategaethau hyn yn briodol.

9 Bu gwelliannau sylweddol ym mherfformiad disgyblion o gymunedau Sipsiwn a Sipsiwn Roma yng nghyfnod allweddol 4 dros y blynyddoedd diwethaf, er mai hwn, ar y cyfan, yw’r isaf o hyd o’r holl grwpiau ethnig yng Nghymru, ac mae islaw cyfartaledd Cymru. Mae nifer fach y disgyblion o gymunedau Teithwyr yn golygu na ellir gwneud cymariaethau tebyg.

10 Er bod y rhan fwyaf o ysgolion ac awdurdodau lleol yn casglu a dadansoddi data ar bresenoldeb a chyrhaeddiad disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, nid ydynt yn defnyddio’r data hwn i werthuso effeithiolrwydd eu strategaethau gwella yn dda. Mae’r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn parhau â’r un mathau o gymorth heb werthuso pa rai yw’r rhai mwyaf effeithiol. Mae ychydig o ysgolion ac awdurdodau lleol yn defnyddio’r data hwn yn dda i bennu effeithiolrwydd eu strategaethau, a gwneud diwygiadau.

11 Mae’r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn darparu cymorth defnyddiol yn yr ysgol ar gyfer disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr trwy wasanaeth addysg i deithwyr. Mae staff o’r gwasanaethau hyn yn cysylltu’n dda â theuluoedd disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac yn helpu disgyblion i wella eu presenoldeb a’u cyrhaeddiad. Mae’r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn defnyddio eu staff arbenigol mewn ysgolion, ar sail nifer y disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy’n mynychu. Ceir diffyg eglurder mewn ychydig o awdurdodau lleol ynglŷn â sut maent yn neilltuo’r staff hyn i ysgolion.

12 Ychydig iawn o awdurdodau lleol yn unig sy’n gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill i gyflwyno gwasanaethau cysylltiedig ar gyfer disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae dau awdurdod lleol yn cydweithio ac yn rhannu gwybodaeth am deuluoedd sy’n teithio rhwng y ddau awdurdod, er enghraifft. Mae hyn yn helpu sicrhau parhad mewn addysg i’r disgyblion hyn.

13 Mae llawer o ysgolion ac awdurdodau lleol wedi gwneud defnydd da o ganllawiau Llywodraeth Cymru ‘Symud Ymlaen – Addysg i Sipsiwn-Teithwyr’ i gefnogi addysg disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae wedi helpu ennyn dealltwriaeth ymhlith darllenwyr o’r diwylliant Sipsi Deithwyr ac o faterion sy’n ymwneud yn benodol â disgyblion o gymunedau Sipsi Deithwyr a’u teuluoedd. Fodd bynnag, mae’r ddogfen hon dros 10 oed, ac mae llawer o’r wybodaeth ynddi wedi dyddio.

14 Mae tua hanner yr awdurdodau lleol a’r ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth â

choleg neu ddarparwr lleol dysgu yn y gwaith i wella cyfleoedd dysgu ar gyfer disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng nghyfnod allweddol 4. Mae ychydig o ddisgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn dilyn cyrsiau galwedigaethol mewn adeiladu neu mewn gwallt a harddwch. Yn ogystal, ychydig iawn o ddisgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n dilyn cyrsiau Safon Uwch yn y chweched dosbarth, ac mae ychydig iawn ohonynt wedi dilyn cyrsiau gradd mewn prifysgol. Nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn mynd ymlaen i astudio cyrsiau sy'n eu paratoi ar gyfer cymwysterau ffurfiol ar lefel ôl-16.

15 Pan mae angen cryfhau medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnig cymorth trwy eu hymyriadau safonol fel rhaglenni dal i fyny. Pan nodir bod gan ddisgybl o gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr angen dysgu ychwanegol o bosibl, mae cyswllt rhwng staff yr awdurdod lleol a chydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol a'r gwasanaeth addysg i deithwyr yn sicrhau yn gyffredinol fod y disgybl yn ymgymryd ag asesiadau perthnasol sy'n arwain at ddarparu cymorth addas.

16 Nid yw mwyafrif o awdurdodau lleol yn credu y bu cyfuno'r Grant Addysg Plant Sipsiwn a Phlant Teithwyr yn y GGA yn 2014 yn effeithiol. Mae hyn oherwydd eu bod yn credu y bu gostyngiad cyffredinol yn y cyllid, a bod hynny wedi cael effaith negyddol ar y gwasanaethau yr oeddent yn gallu eu darparu. Er bod lefel gyffredinol y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru trwy'r GGA wedi cael ei chynnal, o fewn y GGA, roedd disgresiwn i awdurdodau lleol ddyrannu cyllid ar lefel yr oeddent yn ei hystyried yn briodol ar sail angen lleol. Mewn rhai achosion, roedd awdurdodau lleol yn dyrannu cyllid ychwanegol ar gyfer y grwpiau hyn o ddisgyblion trwy eu cyllidebau craidd.

## Argymhellion

**Dylai awdurdodau lleol ac ysgolion:**

A1 Sicrhau eu bod yn gwerthuso effeithiolrwydd eu strategaethau i wella cyflawniad, cyfnod pontio a phresenoldeb* disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac yn gwneud gwelliannau pan na fydd strategaethau yn ysgogi'r deilliannau dymunol

A2 Sicrhau bod polisïau gwrthfwlio a chydraddoldeb yn ystyried anghenion penodol disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr*

A3 Sicrhau bod ysgolion yn hyrwyddo diwylliant Sipsiwn, Roma a Theithwyr ar draws cwricwlwm yr ysgol*

A4 Sicrhau bod disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cael cyfleoedd i fynegi eu barn am eu profiadau dysgu

A5 Cydweithio i gyflwyno a gwella gwasanaethau ar gyfer disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

A6 Archwilio ffyrdd o fagu hyder disgyblion a rhieni o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr i hunanbennu eu hunaniaeth ethnig yn gywir

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A7 Ddiweddaru canllawiau 2008 ‘Symud Ymlaen – Addysg i Sipsiwn-Teithwyr’

* Argymhelliad yn adroddiadau Estyn yn 2005 a 2011

# Gofalwyr ifanc: Darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc mewn ysgolion uwchradd, colegau addysg bellach ac unedau cyfeirio disgyblion ledled Cymru

## Prif ganfyddiadau

1 Mae diffyg data dibynadwy i nodi faint o ofalwyr ifanc sydd mewn ysgolion, UCDau a cholegau ledled Cymru. Nid yw llawer o ddarparwyr yn gwybod pa rai o'u disgyblion a'u dysgwyr sydd â rôl ofalu. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc mewn ysgolion uwchradd, colegau ac UCDau yn amrywio'n fawr.

2 Mae ysgolion uwchradd, colegau ac UCDau sydd fwyaf effeithiol o ran diwallu anghenion gofalwyr ifanc wedi rhoi systemau cadarn ar waith i nodi'r dysgwyr hyn. Maent yn olrhain eu hanghenion lles yn rheolaidd ac yn addasu eu darpariaeth yn ofalus i ddiwallu anghenion unigol pob gofalwr ifanc. Fodd bynnag, lleiafrif yn unig o'r ysgolion, y colegau a'r UCDau y gwnaed arolwg ohonynt sy'n defnyddio system rheoli gwybodaeth i olrhain ac adrodd ar y cynnydd a wna gofalwyr ifanc o gymharu â'u cyfoedion.

3 Mae ysgolion uwchradd, colegau ac UCDau sydd ag aelod o staff arweiniol enwebedig ar gyfer gofalwyr ifanc yn darparu lefel uchel o ofal, cymorth ac arweiniad ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr ar y cyfan. Yn y darparwyr hyn, mae gofalwyr ifanc yn hyderus i godi pryderon, ac yn sicr y bydd yr aelod arweiniol o staff yn hyrwyddo eu hawliau ac yn cysylltu'n sensitif â rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill.

4 Ar ôl rhoi Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010 ar waith, mae'r Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) a'r awdurdodau lleol yn eu hardaloedd, wedi datblygu partneriaethau strategol gwerthfawr i rannu gwybodaeth, hyrwyddo cydweithredu rhwng asiantaethau a chwblhau asesiadau priodol o anghenion gofalwyr ifanc. Mae gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2014) yn cryfhau gwaith partneriaeth ymhellach trwy sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r byrddau rhanbarthol hyn yn cynnwys cynrychiolaeth o blith gofalwyr ifanc ac yn sicrhau bod gwasanaethau ac adnoddau'n cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol i wella deilliannau ar gyfer pobl yn eu hardal, gan gynnwys gofalwyr ifanc. Mae'r gwaith partneriaeth hwn yn dechrau cynnwys darparwyr addysg.

5 Mae gofalwyr ifanc yn elwa'n sylweddol lle mae gan awdurdodau lleol gynllun strategol clir ar gyfer gofalwyr ac unigolyn enwebedig i yrru'r strategaeth yn ei blaen mewn lleoliadau addysgol. Yn yr awdurdodau lleol hyn, mae darparwyr yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol pan fydd disgyblion yn pontio rhwng ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a cholegau. Mae ganddynt ddull cyson o nodi gofalwyr ifanc a'u cyfeirio at gymorth priodol.

6 Ceir ystod fach o gynlluniau gwobrwyo sy'n darparu adnoddau a phecynnau cymorth defnyddiol ar gyfer ysgolion uwchradd, colegau ac UCDau i ffurfio eu darpariaeth i ddiwallu anghenion gofalwyr ifanc. Fodd bynnag, mae gormod o ddarparwyr nad ydynt wedi manteisio arnynt.

7 Mae asiantaethau arbenigol yn darparu adnoddau a chymorth o ansawdd da i godi ymwybyddiaeth a diwallu anghenion gofalwyr ifanc. Ond nid yw llawer o ysgolion, colegau ac UCDau yn ymgysylltu'n ddigon da â'r asiantaethau hyn ac nid ydynt wedi manteisio ar y cymorth gwerthfawr hwn.

8 Mae hyfforddiant noddedig Llywodraeth Cymru ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar waith ysgolion. Yn gyffredinol, mae ysgolion sy'n darparu'n dda ar gyfer gofalwyr ifanc yn deall sut gallai'r rôl ofalu gael effaith niweidiol ar brofiadau plentyn, a'i gyfleoedd mewn bywyd.

9 Mae defnyddio proffiliau un dudalen i gofnodi beth sy'n bwysig i'r plant, ac ar eu cyfer, yn helpu rhoi llais i ofalwyr ifanc, ac mae'n galluogi ysgolion, colegau ac UCDau i dargedu cymorth i ddiwallu eu hanghenion unigol.

10 Mae ystod o gyrsiau hyfforddi defnyddiol ar gael i godi ymwybyddiaeth staff am anghenion gofalwyr ifanc. Fodd bynnag, mae gormod o staff mewn ysgolion, colegau ac UCDau nad ydynt wedi cael yr hyfforddiant hwn.

11 Ychydig iawn o ysgolion yn unig yr ymwelwyd â nhw sydd â dealltwriaeth glir o hawliau estynedig gofalwyr o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn ymwybodol o'r gofyniad i asesu anghenion gofalwyr ifanc, a rôl addysg o ran cyfrannu at yr asesiad hwn.

## Argymhellion

**Dylai ysgolion uwchradd, colegau ac UCDau:**

A1 Sicrhau bod ganddynt weithdrefnau cadarn i nodi pa rai o'u disgyblion/dysgwyr sydd â rôl ofalu

A2 Cael aelod o staff enwebedig sydd â chyfrifoldeb arweiniol am ofalwyr ifanc, sy'n gweithredu fel unigolyn cyswllt ar gyfer gofalwyr ifanc, ac yn hyrwyddo eu hanghenion

A3 Codi ymwybyddiaeth staff am anghenion gofalwyr ifanc

A4 Ymgysylltu â gwasanaethau arbenigol i adolygu a gwella eu darpariaeth i ddiwallu anghenion gofalwyr ifanc

A5 Olrhain a monitro cynnydd a deilliannau ar gyfer gofalwyr ifanc, yn unol â'r drefn ar gyfer grwpiau eraill o ddysgwyr sy'n agored i niwed

A6 Gwerthuso eu darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc gan gyfeirio at y rhestr wirio yn Atodiad 1 neu becynnau cymorth sydd ar gael.

**Dylai awdurdodau lleol:**

A7 Ganolbwyntio strategaethau gofalwyr ar gynyddu capasiti ysgolion, colegau ac UCDau i nodi a diwallu anghenion gofalwyr ifanc

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A8 Lunio data dibynadwy a gesglir yn genedlaethol i helpu nodi gofalwyr ifanc

## Iach a hapus: Effaith yr ysgol ar iechyd a llesiant disgyblion

### Prif ganfyddiadau

1 Mae gan oddeutu dwy o bob tair ysgol gynradd a thraean o ysgolion uwchradd yng Nghymru ymagwedd ysgol gyfan, gynhwysol at gefnogi iechyd a llesiant disgyblion. Nod yr ysgolion hyn yw sicrhau bod profiad ysgol y disgyblion o ddydd i ddydd yn gyson â'r negeseuon a roddir am iechyd a llesiant mewn gwersi, gwasanaethau ac ym mholisïau'r ysgol. Datblygant ddisgyblion yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas – un o bedwar diben y cwricwlwm newydd sy'n datblygu ar gyfer Cymru. Mae ganddynt:

- bolisïau ac arferion sy'n sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu
- arweinwyr sy'n 'gwneud y dweud' ynghylch cefnogi iechyd a llesiant disgyblion
- diwylliant anogol, lle y mae perthnasoedd cadarnhaol yn galluogi disgyblion i ffynnu
- cymuned ac ethos cynhwysol
- gwybodaeth fanwl am iechyd a llesiant disgyblion sy'n dylanwadu ar bolisïau a chamau gweithredu
- amgylchedd a chyfleusterau sy'n hybu iechyd a llesiant da, fell le i chwarae, cymdeithasu ac ymlacio amser egwyl
- cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n cynnwys profiadau dysgu unigol, seiliedig ar dystiolaeth, sy'n hybu iechyd a llesiant
- gofal bugeiliol cefnogol ac ymyriadau targedig i ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol
- cysylltiadau effeithiol ag asiantaethau allanol
- partneriaethau agos â rhieni a gofalwyr
- dysgu proffesiynol parhaus i'r holl staff, sy'n eu galluogi i gefnogi iechyd a llesiant disgyblion

2 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion eraill nifer o agweddau cryf yn eu cymorth ar gyfer iechyd a llesiant disgyblion, er nad yw eu hymagwedd yn un gwbl ysgol gyfan. Fodd bynnag, oni bai bod gan ysgol yr holl agweddau allweddol a restrir uchod er mwyn cyflwyno neges gyson a phrofiad cyson i ddisgyblion, mae perygl y gallai gwaith da gael ei danseilio ac y gellir cyfyngu ar ei effaith. Er enghraifft, prin yw gwerth gwersi am fwlio oni bai bod disgyblion yn fodlon â'r ffordd y mae'r ysgol yn delio â honiadau o fwlio; yn yr un modd, nid yw polisïau ar arfer adferol yn golygu rhyw lawer i ddisgyblion, oni bai bod staff yn cymhwyso'r dulliau hynny wrth weithio gyda disgyblion.

3 Rheswm allweddol pam mae ysgolion uwchradd yn cefnogi iechyd a llesiant disgyblion yn llai llwyddiannus nag ysgolion cynradd yw'r gwahaniaeth rhwng y negeseuon allweddol sy'n cael eu rhoi a'r profiad a gaiff disgyblion. Hefyd, mae'r newidiadau a ddaw gyda'r glasoed yn ei gwneud hi'n fwy heriol i ysgolion uwchradd gefnogi iechyd a llesiant disgyblion. Gallai hyn hefyd esbonio'n rhannol pam mae ysgolion uwchradd yn llai llwyddiannus ar y cyfan nag ysgolion cynradd wrth gefnogi

iechyd a llesiant disgyblion, er na ddylid ei ddefnyddio'n esgus.

4 Mae arweinwyr yn gyfrifol am hybu llesiant staff, amddiffyn staff rhag baich gwaith gormodol a sicrhau eu bod yn ddiogel yn y gwaith. Mae ysgolion sy'n cefnogi llesiant disgyblion yn effeithiol yn tueddu i gefnogi llesiant staff yn gryf hefyd.

5 Mae cynnwys disgyblion yn ystyrlon mewn gwerthuso a datblygu gwaith ysgol i gefnogi'u hiechyd a'u llesiant yn ffactor allweddol ar gyfer llwyddiant. Mae ymdeimlad disgyblion o berthyn ac o werth yn aml wedi'i wreiddio yn y graddau y teimlant fod staff yn poeni amdanynt, yn cymryd amser i ddod i'w hadnabod, ac yn gwrando ar eu barn.

6 Mae ansawdd perthnasoedd rhwng staff a disgyblion a pherthnasoedd disgyblion a chymheiriaid yn ffactor hanfodol o safbwynt p'un a yw disgyblion yn ffynnu ai peidio yn yr ysgol. Dywed disgyblion fod gweithredoedd syml, fel athrawon yn gwenu arnynt ac yn eu cyfarch wrth eu henw, a chymryd rhan mewn sgwrs gadarnhaol ar ddechrau'r diwrnod ysgol, yn helpu iddynt setlo a theimlo bod gofal tuag atynt, tra bod yr ychydig athrawon sy'n gweiddi ar ddisgyblion, yn codi cywilydd arnynt neu'n eu trin yn annheg, yn niweidio'u hymdeimlad o lesiant.

7 Mewn ychydig ysgolion, mae arweinwyr yn dirprwyo cyfrifoldeb am iechyd a llesiant yn ormodol i un aelod staff, neu dîm bach o staff. Mae'r ysgolion hyn yn colli'r ymdeimlad bod iechyd a llesiant yn gyfrifoldeb ar bawb, ac yn rhoi'r argraff i ddisgyblion nad yw pawb yn poeni.

8 Mae pob ysgol yn darparu profiadau dysgu'n ymwneud ag iechyd a llesiant, gan gynnwys addysg gorfforol ac addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh). Mae ysgolion cynradd yn tueddu i ddarparu profiadau o ansawdd gwell mewn ABCh ac mae ysgolion uwchradd yn tueddu i ddarparu profiadau o ansawdd gwell mewn addysg gorfforol. Fodd bynnag, nid yw ysgolion cynradd ar y cyfan yn addysgu addysg rhyw a pherthynas yn dda, ac nid yw ysgolion uwchradd yn neilltuo digon o amser i addysg gorfforol wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn.

9 Mae'r holl ysgolion cynradd ac uwchradd yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau i gynorthwyo disgyblion ag anghenion penodol yn gysylltiedig â'u hiechyd a'u llesiant. Mae effeithiolrwydd y strategaethau hyn yn dibynnu'n drwm ar ansawdd y berthynas rhwng y staff a'r disgyblion sydd ynghlwm. Yn ogystal â'u gwaith eu hunain, mae'r holl ysgolion yn gweithio gyda staff o asiantaethau allanol amrywiol, fel cwnselwyr, nyrsys, swyddogion yr heddlu, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr ieuenctid. Mae'r gwaith amlasiantaeth hwn yn cefnogi iechyd a llesiant disgyblion yn fwyaf effeithiol pan fydd pob ochr yn ymddiried yn ei gilydd ac yn deall sut orau i gydweithio er lles pennaf disgyblion. Yn yr un modd, mae gwaith ysgolion gyda rhieni yn gweithio orau pan fydd ysgolion wedi meithrin ymddiriedaeth ac yn cyfathrebu'n effeithiol.

10 Mae disgyblion yn feirniadol o doiledau ysgol nad ydynt yn hygyrch, yn lân nac yn ddiogel. Roedd disgyblion mewn tua hanner yr ysgolion a holwyd – ysgolion uwchradd yn bennaf – wedi mynegi pryder am doiledau. Roedd y pryderon a godwyd yn cynnwys diffyg glendid yn gyffredinol, cyfleusterau ar gau, cloeon ar goll o ddrysau'r ciwbiclau neu ddim yn gweithio, diffyg cyfleusterau gwaredu darpariaeth mislif, diffyg dŵr poeth a sebon, a threfniadau anaddas i ddisgyblion trawsryweddol.

Mewn ysgolion â thoiledau ar wahân i ddisgyblion gwrywaidd a benywaidd, mae disgyblion hefyd yn pryderu am ymddygiad gwrthgymdeithasol, sy'n bryder yn anaml iawn pan fydd disgyblion yn gallu defnyddio toiledau ciwbicl unigol wrth ymyl ystafelloedd ymolchi agored, hawdd eu monitro.  Mae gan ddisgyblion farn gref am doiledau, ond nid yw ysgolion bob amser wedi cyfrif yn ddigon am eu barn.

11 Ychydig athrawon sy'n ymuno â'r proffesiwn gyda hyfforddiant cefndir sylweddol ym maes datblygiad plant neu'r glasoed, neu'r ffordd orau o gefnogi iechyd a llesiant plant.  Dim ond lleiafrif o staff mewn ysgolion sydd o'r farn bod yr hyfforddiant neu'r arweiniad a gawsant ar y cychwyn neu mewn swydd wedi'u helpu i gynorthwyo disgyblion â'u llesiant a'u hiechyd meddwl.

## Argymhellion

**Dylai ysgolion:**

A1 Ddatblygu ymagwedd drefnus, ysgol gyfan, sy'n cefnogi iechyd a llesiant pob disgybl

A2 Cryfhau'r perthnasoedd rhwng staff a disgyblion a pherthnasoedd cymheiriaid rhwng disgyblion

A3 Gwella ansawdd addysgu a phrofiadau dysgu o ran iechyd a llesiant, o fewn cwricwlwm eang a chytbwys

A4 Cyfrif yn well am farn disgyblion ac ymchwil academaidd wrth ddatblygu'u dulliau o gefnogi iechyd a llesiant disgyblion

A5 Sicrhau bod amgylchedd yr ysgol a'i gwasanaethau yn cefnogi iechyd a llesiant disgyblion

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:**

A6 Gynorthwyo ysgolion i ddatblygu ymagwedd ysgol gyfan at iechyd a llesiant

A7 Cefnogi gweithio effeithiol rhwng ysgolion ac asiantaethau eraill er lles pennaf plant a phobl ifanc a'u teuluoedd

**Dylai darparwyr addysg gychwynnol athrawon:**

A8 Sicrhau bod athrawon newydd wedi'u hyfforddi i ddeall datblygiad plant a'r glasoed a'u bod wedi'u paratoi i gefnogi iechyd a llesiant disgyblion

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A9 Sicrhau bod y dulliau atebolrwydd a ddefnyddir yn y system addysg yn rhoi pwys ar iechyd a llesiant disgyblion

# Ysgolion ffederal: Nodweddion cyffredin ffedereiddio effeithiol

## Prif ganfyddiadau

### Profiad y dysgwr mewn ysgol ffederal

1 Mae'r rhan fwyaf o ffederasiynau yn defnyddio arbedion maint i ariannu gwelliannau i'r cwricwlwm, fel ymweliadau preswyl ac ymwelwyr allanol. Mewn ychydig o achosion, mae ffederasiynau'n defnyddio arbenigedd staff i gefnogi cynnydd grwpiau penodol o ddysgwyr, fel y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw uwch arweinwyr yn gwneud defnydd digonol o arbenigedd staff ar draws y ffederasiwn i wella profiadau i bob disgybl a sicrhau cynnydd grwpiau penodol o ddisgyblion, fel y rhai mwy abl neu'r rheiny a allai dangyflawni oherwydd amddifadedd.

2 Mewn lleiafrif o ysgolion ffederal, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gydweithio â'u cyfoedion mewn ysgolion eraill. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar fedrau cymdeithasol disgyblion a'u synnwyr o les. Bron ym mhob achos, caiff ffedereiddio effaith gadarnhaol ar y profiad pontio i lawer o ddisgyblion, wrth iddynt symud o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3. Mae hyn yn arbennig o gryf mewn ffederasiynau sy'n cynnwys ysgol uwchradd ac ysgolion cynradd clwstwr.

### Pam mae ysgolion yn ffedereiddio

3 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae cyrff llywodraethol ac awdurdodau lleol yn creu ffederasiwn i gynyddu'r tebygolrwydd o sicrhau arweinyddiaeth effeithiol a hyfywedd a chynaliadwyedd hirdymor ysgolion. Mae hyn yn arbennig o wir am ysgolion bach, y rheiny mewn lleoliadau gwledig neu leoliadau sy'n ynysig yn ddaearyddol, ac ysgolion cyfrwng Cymraeg lle mae recriwtio penaethiaid yn hynod heriol. Yn yr achosion hyn, gall ffedereiddio wella pa mor ddeniadol yw swydd pennaeth trwy fuddion fel cynnig mwy o gyflog, llai o ymrwymiad addysgu, a charfan ehangach o staff.

4 Er ei fod yn ffactor pwysig, anaml y gwelir mai arbedion o ran cyllidebau yw'r unig gymhelliant dros ffedereiddio. Maent fel arfer yn eilradd i faterion yn gysylltiedig â recriwtio penaethiaid a chynaliadwyedd y ddarpariaeth.

5 Mewn ychydig o achosion, mae awdurdodau lleol yn defnyddio ffedereiddio mewn ymgais i ysgogi gwelliant mewn ysgolion sy'n tanberfformio. Gwnânt hyn trwy gysylltu'r ysgol sy'n tanberfformio ag ysgolion cyfagos cryfach. Pan fydd hyn yn llwyddiannus, mae awdurdodau lleol a chyrff llywodraethol wedi sicrhau arweinyddiaeth gyffredinol effeithiol ar gyfer y ffedereiddio. Nid yw ffedereiddio ynddo'i hun yn sicrhau gwelliant mewn safonau addysgu a dysgu o reidrwydd.

6 Mae'r ffaith fod cydweithio effeithiol anffurfiol wedi bodoli rhwng ysgolion ymlaen llaw yn ysgogwr cryf o ran sicrhau llwyddiant ffedereiddio ffurfiol. Pan na fu trefniadau anffurfiol ar waith yn y cyfnod cyn ffedereiddio ffurfiol, mae arweinwyr llwyddiannus yn sicrhau bod cyfathrebu clir, gweledigaeth ar y cyd a sensitifrwydd i gyd-destunau lleol, o'r cychwyn.

7 Mae agosrwydd daearyddol ysgolion yn ystyriaeth bwysig pan fydd awdurdodau lleol a chyrff llywodraethol yn ystyried ffedereiddio. Mae agosrwydd gwell yn caniatàu ar gyfer cydweithio mwy effeithiol ar bob lefel, yn enwedig o ran darparu cyfleoedd i ddisgyblion gydweithio.

### Y broses i sefydlu ffederasiwn

8 Pan fydd ffedereiddio yn fwyaf llwyddiannus, mae gan gyrff llywodraethol, uwch arweinwyr ac awdurdodau lleol weledigaeth glir o'r hyn y maent yn dymuno'i gyflawni trwy'r broses ffedereiddio. Mae eu gweledigaeth yn canolbwyntio'n graff ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion. Maent yn eglur o'r cychwyn ynglŷn â'r hyn y mae'r ffederasiwn yn ei olygu a ddim yn ei olygu, ac maent yn cyfleu hyn yn glir i staff, rhieni a disgyblion. Yn yr achosion gorau, defnyddiant ffederasiynau presennol i ddangos y manteision posibl. Maent yn ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn proses ymgynghori a chyd-greu dryloyw ac ystyrlon. Pan fydd y prosesau hyn yn effeithiol, mae ysgolion yn elwa ar fanteision ffedereiddio yn gynnar.

9 Yn yr achosion mwyaf llwyddiannus, mae gan awdurdodau lleol, cyrff llywodraethol ac uwch arweinwyr rôl allweddol mewn sicrhau eu bod yn rhoi pwys cyfartal i safbwyntiau rhieni, staff a disgyblion o bob un o gymunedau eu hysgol. Maent yn gofalu eu bod yn sicrhau cydbwysedd rhwng cynnal hunaniaeth pob ysgol unigol a datblygu synnwyr o gymuned ddysgu fwy, gyfunol.

10 Mewn ffederasiynau effeithiol, buan y mae cyrff llywodraethol yn sefydlu strwythurau arwain sy'n cefnogi eu gweledigaeth ar gyfer y ffederasiwn. Mae hyn yn cynnwys sicrhau trefniadau effeithiol ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth pob ysgol yn absenoldeb y pennaeth.

11 Mae ansawdd y cymorth y mae awdurdodau lleol yn ei ddarparu i gyrff llywodraethol i'w cynorthwyo trwy'r broses ffedereiddio yn amrywiol. Yn yr achosion gorau, mae awdurdodau lleol yn sicrhau cymorth cyson ar draws yr holl ysgolion yn y ffederasiwn, er enghraifft trwy ddefnyddio'r un ymgynghorydd her i bob ysgol.

### Gwireddu manteision ffedereiddio

12 Mewn ffederasiynau llwyddiannus, mae arweinwyr yn gwella darpariaeth a deilliannau ar gyfer disgyblion trwy rannu adnoddau, systemau ac arfer dda ar draws ysgolion. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw ysgolion ffederal yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol i gefnogi cydweithio, ac yn enwedig cydweithio ymhlith disgyblion, ar draws safleoedd ysgol.

13 Yn y rhan fwyaf o achosion, pan geir llywodraethu da a phennaeth gweithredol effeithiol, caiff ffedereiddio effaith gadarnhaol ar allu arwain ar bob lefel. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i benaethiaid ymgysylltu â dysgu proffesiynol a fydd yn eu paratoi i arwain ffederasiwn neu i uwch arweinwyr a staff ysgolion ffederal rwydweithio a rhannu arfer.

14 Yn aml, mae ffedereiddio yn arwain at arbedion o ran cyllidebau i ysgolion. Pan fydd capasiti yn caniatáu, mae cynyddu rôl staff gweinyddol neu gyflogi rheolwr busnes i oruchwylio cyllidebau ar draws y ffederasiwn yn aml yn arwain at ragor o arbedion ac effeithlonrwydd. Fodd bynnag, mewn ffederasiynau sy'n cynnwys ysgolion llai, gall rheoli dwy neu dair cyllideb ar wahân a chydgyfrannu adnoddau fod yn her i gyrff llywodraethol a phenaethiaid.

## Argymhellion

**Dylai ysgolion ffederal:**

A1 Weithio gyda rhanddeiliaid o'r cychwyn i sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer y ffederasiwn, sy'n canolbwyntio ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion

A2 Datblygu strwythurau arwain ar gyfer y ffederasiwn, gan gynnwys rhywfaint o amser heb addysgu ar gyfer uwch arweinydd ar bob safle, i gefnogi gweithredu effeithiol o ddydd i ddydd a chyfathrebu da o fewn ysgolion, a rhyngddynt

A3 Defnyddio prosesau hunanwerthuso i nodi sut gellir defnyddio medrau ac arbenigedd staff i wella profiadau dysgu ar gyfer disgyblion ar draws y ffederasiwn

A4 Datblygu'r defnydd o TGCh i gefnogi cydweithio gan staff a disgyblion

**Dylai ysgolion sy'n ystyried ffedereiddio hefyd:**

A5 Werthuso effaith bosibl ffedereiddio ar safonau a lles disgyblion

A6 Nodi graddau ac effeithiolrwydd unrhyw gydweithio sy'n bodoli'n barod

A7 Nodi a gwerthuso effaith bosibl unrhyw rwystrau rhag ffedereiddio effeithiol, fel pellter daearyddol

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:**

A8 Ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol ar gyfer uwch arweinwyr ysgolion ffederal

A9 Adolygu eu trefniadau cyllid er mwyn rhoi'r hyblygrwydd i ysgolion ffederal gydgyfrannu eu hadnoddau'n haws

A10 Rhannu arfer dda o ran ffedereiddio effeithiol gydag ysgolion wrth iddynt ystyried ymgymryd â'r broses ffedereiddio

A11 Sicrhau cymorth cyson ar gyfer yr holl ysgolion o fewn ffederasiwn, trwy ddefnyddio'r un ymgynghorydd her ar gyfer pob ysgol, er enghraifft

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A12 Archwilio trefniadau i helpu ysgolion ffederal i gydgyfrannu eu hadnoddau

# Arferion cofrestru disgyblion

## Prif ganfyddiadau

1 Yn ystod y chwe blynedd ddiwethaf, mae canran y disgyblion Blwyddyn 10 ar y gofrestr mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed a gynhelir nad ydynt yn symud ymlaen i Flwyddyn 11 bron wedi dyblu. Yn ystod yr un cyfnod, mae canrannau disgyblion nad ydynt yn gwneud cynnydd rhwng blynyddoedd ysgol eraill wedi codi ychydig bach yn unig. Yn 2017-2018, mae canran y disgyblion Blwyddyn 10 wnaeth ail-wneud Flwyddyn 10 chwe gwaith yn fwy na'r gyfradd yn 2013-2014. Mewn llawer o achosion, nid yw disgyblion sy'n ail-wneud Blwyddyn 10 yn mynd ymlaen i Flwyddyn 11 wedyn i orffen eu hastudiaethau yng nghyfnod allweddol 4, ond maent yn gadael yr ysgol ar ôl dwy flynedd ym Mlwyddyn 10. Yn 2018-2019, bu gostyngiad yng nghanran y disgyblion yn ail-wneud Blwyddyn 10. Gallai'r newid hwn fod wedi cael ei ddylanwadu gan gyflwyno gwiriadau dilysu llymach pan fydd ysgolion yn cyflwyno eu data CYBLD. Fodd bynnag, mae'r gyfradd hon dros deirgwaith yn uwch na'r gyfradd yn 2013-2014 o hyd. Mae'r data hwn yn awgrymu y gallai ychydig o ysgolion fod yn cofrestru disgyblion i ail-wneud Blwyddyn 10 neu flynyddoedd ysgol eraill fel ffordd o symud disgyblion fel nad ydynt yn cael eu cynnwys yn nata perfformiad cyfnod allweddol 4 yr ysgol.

2 Dros y chwe blynedd ddiwethaf, mae canran y disgyblion sydd wedi eu cofrestru mewn ysgol brif ffrwd ym mis Ionawr ym Mlwyddyn 10 sydd wedyn yn symud i addysg heblaw yn yr ysgol fel prif ddarparwr cyn mis Ionawr ym Mlwyddyn 11 bron wedi dyblu. Dros y chwe blynedd ddiwethaf, mae cyfanswm nifer y disgyblion (o bob oedran) sy'n dilyn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol wedi gostwng ychydig, ond mae canran y disgyblion hyn sy'n dilyn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol tra'n parhau i fod â 'phrif gofrestriad deuol' mewn ysgol a gynhelir wedi mwy na haneru. Mae canran y disgyblion yn dilyn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol sydd â statws 'cofrestriad deuol atodol' mewn ysgol a gynhelir wedi treblu yn yr un cyfnod. Ni chaiff y deilliannau disgyblion olaf hyn eu cynnwys yn nata perfformiad cyfnod allweddol 4 yr ysgol. Mae'r data hwn yn awgrymu y gallai ychydig o ysgolion fod yn cofrestru disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol fel disgyblion sydd â chofrestriad deuol atodol fel nad yw eu data yn cael ei gynnwys yn nata perfformiad yr ysgol. Yn ystod y chwe blynedd ddiwethaf, bu cynnydd hefyd yn nifer y disgyblion yng Nghymru sy'n cael eu haddysgu gartref.

3 Mae disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, a'r rheiny sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig neu'n derbyn darpariaeth gweithredu gan yr ysgol a mwy, yn llawer mwy tebygol o beidio â symud ymlaen o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11 na'u cyfoedion. Ar gyfer carfan y disgyblion a oedd ym Mlwyddyn 10 yn 2017-2018, mae'r rheiny sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim dros deirgwaith o beidio â symud ymlaen yn uniongyrchol i Flwyddyn 11 mewn ysgol brif ffrwd yn fwy tebygol nâ'r rheiny nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae disgyblion Blwyddyn 10 sydd ag anghenion addysgol arbennig dros bedair gwaith yn fwy tebygol na'r rheiny heb anghenion addysgol arbennig o beidio â symud ymlaen yn uniongyrchol i Flwyddyn 11 mewn ysgol brif ffrwd. Mewn ysgolion sydd â lefelau uchel o ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim neu sydd ag anghenion

addysgol arbennig, mae cyfraddau'r disgyblion nad ydynt yn symud ymlaen o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11 yn dueddol o fod yn uwch.

4 Gallai canlyniad anfwriadol y rheoliadau presennol ynglŷn â chofrestriad deuol disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol fod yn atal ysgolion rhag bod yn gynhwysol. Mae cyfle i rai ysgolion fanteisio ar fylchau yn y rheoliadau hyn er mwyn gwella eu data perfformiad cyfnod allweddol 4. Mae anghysondebau hefyd o ran pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn monitro ac yn herio arferion tynnu enwau disgyblion oddi ar y gofrestr ac arferion cofrestru amhriodol eraill. Mae amlder casglu data CYBLD a'r diffyg manylion ynglŷn â chyrchfannau disgyblion sy'n gadael ysgolion rhwng blynyddoedd ysgol yn ei gwneud yn anodd olrhain symudiad disgyblion ar lefel genedlaethol.

## Argymhellion

**Dylai ysgolion a chyrff llywodraethol:**

A1 sicrhau bod disgyblion yn ail-wneud Blwyddyn 10 mewn amgylchiadau eithriadol yn unig

A2 adolygu arferion cofrestru a symudiadau disgyblion yn rheolaidd fel rhan o drefniadau gwerthuso a gwella ysgolion

A3 sicrhau bod llywodraethwyr yn monitro symudiadau disgyblion rhwng Blynyddoedd 10 ac 11

**Dylai awdurdodau lleol:**

A4 fonitro arferion cofrestru ysgolion i roi sicrwydd fod ysgolion bob amser yn gweithredu er lles pennaf disgyblion unigol

A5 sicrhau bod gan awdurdodau lleol ac ysgolion feini prawf a phrotocolau clir ar gyfer caniatáu i ysgolion gofrestru disgyblion yn ddisgyblion sy'n ail-wneud Blwyddyn 10

A6 monitro ac ymchwilio i unrhyw achosion lle mae disgyblion yn ail-wneud Blwyddyn 10 neu'n symud o Flwyddyn 10 i flwyddyn ysgol heblaw Blwyddyn 10 neu Flwyddyn 11

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A7 adolygu'r drefn ar gyfer cofrestru disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, ac ystyried data cyrchfannau i fesur effeithiolrwydd darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol

A8 gweithio gydag awdurdodau lleol i sefydlu cronfeydd data o ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol yn eu hardal

A9 adolygu trefniadau ar gyfer CYBLD i sicrhau tryloywder gwell o ran symudiadau disgyblion

# Adnabod eich plant – cefnogi disgyblion sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod

## Prif ganfyddiadau

1 Bellach, mae gan lawer o arweinwyr, athrawon a staff cymorth ddealltwriaeth well o effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar blant a phobl ifanc, yn rhannol o ganlyniad i hyfforddiant gan Ganolfan Cymorth ACE Cymru, ac oherwydd bod rhai staff yn rhoi llawer o'u hamser i ymchwilio i faterion lles. Mae'r ymwybyddiaeth well hon o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod wedi helpu llawer o ysgolion i fabwysiadu dull ysgol gyfan, yn cynnwys eu holl staff, o gefnogi disgyblion agored i niwed.

2 Mae'r ysgolion sy'n cefnogi orau ddisgyblion sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a disgyblion eraill sy'n agored i niwed yn adnabod eu disgyblion yn dda, ac yn cynnig amgylchedd diogel ac anogol lle y gall pob disgybl deimlo'n hapus. Mae staff yn yr ysgolion hyn yn gweithio'n agos gyda theuluoedd, heb farnu. Maent yn sefydlu diwylliant o ymddiriedaeth lle y mae rhieni'n fodlon rhannu gwybodaeth a gall staff eu cyfeirio at ffynonellau cymorth posibl. Mae arweinwyr yn yr ysgolion hyn yn cefnogi lles eu staff ac yn rhoi hyfforddiant iddynt, oherwydd cydnabyddant fod gweithio gyda disgyblion a theuluoedd sydd mewn amgylchiadau anodd yn gallu bod yn feichus yn emosiynol.

3 Mae ansawdd ac effaith y cymorth i ddisgyblion sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn tueddu i fod yn well yn yr ysgolion cynradd yr ymwelwyd â nhw, nag yn yr ysgolion uwchradd. Mewn llawer o ysgolion cynradd, mae athrawon yn rhoi cyfleoedd dyddiol i ddisgyblion siarad am eu teimladau a rhannu'u pryderon. Maent yn cynnig help ymarferol a chymorth moesol i deuluoedd agored i niwed ac yn cynnal perthynas gadarnhaol â nhw. Er bod gan rai ysgolion uwchradd brosesau cadarn i sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth gywir gan deuluoedd, mae llawer ohonynt heb sefydlu perthynas agos, ymddiriedus gyda nhw.

4 Yn yr achosion gorau, mae ysgolion yn canolbwyntio ar wella lles eu holl ddisgyblion. Er bod cymorth ac ymyriadau targedig ac arbenigol i'r rhai sydd eu hangen fwyaf, mae darpariaeth gyffredinol ystyriol hefyd ar gyfer meithrin gwydnwch disgyblion a chryfhau eu deallusrwydd emosiynol. Mae hyn yn bwysig oherwydd gall profiadau niweidiol yn ystod plentyndod plant a phobl ifanc gael eu cuddio'n dda.

5 Yn aml, mae llai o gyfleoedd i gymdeithasu i ddisgyblion sy'n byw mewn amgylchiadau anodd ac efallai na fydd ganddynt lawer o hyder wrth geisio gwneud ffrindiau. Mae mwyafrif o ysgolion cynradd yn cynnal clybiau cyfeillgarwch targedig i ddisgyblion. Mae ychydig o ysgolion yn defnyddio'u Grant Datblygu Disgyblion i ariannu cymorth targedig, fel grwpiau anogaeth, lle mae disgyblion yn dysgu sut i gymdeithasu ac yn dysgu strategaethau ymdopi. Yn aml, mae gan y disgyblion hyn anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol sylweddol, ond gwnânt gynnydd da yn y math hwn o amgylchedd dysgu.

6 Mae llawer o ysgolion wedi hyfforddi rhai staff i gyflwyno rhaglenni ymyrraeth gymdeithasol ac emosiynol i ddisgyblion agored i niwed, gan gynnwys y rhai sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mewn sawl achos, mae cynorthwywyr cymorth wedi cael hyfforddiant penodol i gynorthwyo disgyblion sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a disgyblion eraill sy'n agored i niwed. O ganlyniad, maent yn deall effaith trawma ar blant a phobl ifanc a phwysigrwydd ymlyniad wrth gefnogi'u datblygiad seicolegol a'u hiechyd meddwl. Mewn llawer o ysgolion cynradd, mae'r holl staff wedi elwa o hyfforddiant, ond mae llai wedi gwneud mewn ysgolion uwchradd, sy'n cyfyngu ar y cyfle i ddatblygu dull ysgol gyfan.

7 Mewn ysgolion cynradd, mae trefniadau cadarn fel arfer i sicrhau bod plant sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a disgyblion eraill sy'n agored i niwed yn cael mannau tawel, anogol a chefnogol i fynd iddynt pan fyddant yn teimlo'n bryderus neu'n ofidus. Er y gall ysgolion uwchradd gynnig lleoedd tebyg hefyd, cânt eu defnyddio'n bennaf gan y disgyblion ieuengaf neu'r rhai ag anghenion addysgol arbennig.

8 Dywed y rhan fwyaf o ddisgyblion fod oedolion addas yn yr ysgol y maent yn ymddiried ynddynt ac yn teimlo'n ddigon diogel i drafod problemau gyda nhw a theimlo y byddant yn eu helpu. Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, dywed llawer o ddisgyblion uwchradd eu bod yn gwybod am staff y gallant droi atynt, ond nid ydynt yn teimlo y bydd eu holl athrawon yn gwybod sut i gynnig cymorth iddynt.

9 Mae trefniadau i fonitro lles a chynnydd disgyblion agored i niwed a'r rhai sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn briodol yn y rhan fwyaf o ysgolion. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn glir mai effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar blant a phobl ifanc sy'n bwysig, ac nid cyfrif nifer y profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Yn aml, mae ysgolion yn canolbwyntio ar wella lles pob disgybl trwy ddarparu gwahanol lefelau o ymateb yn unol ag anghenion disgyblion. Yn yr ysgolion gorau, mae athrawon yn defnyddio ystod gynhwysfawr o offer a holiaduron i asesu ac olrhain lles disgyblion a nodi eu cryfderau a meysydd anhawster posibl o ran hunan-barch neu hyder cymdeithasol.

10 Mae lles dinasyddion Cymru, gan gynnwys plant a phobl ifanc, yn uchel ar agenda pob awdurdod lleol a dyma un o'r prif flaenoriaethau yn eu cynlluniau strategol corfforaethol. Mae llawer o awdurdodau lleol yn gwneud ymrwymiad clir i rannu gwybodaeth drwy broses yr 'Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd' neu 'Ymgyrch Encompass', sy'n golygu y dylai ysgolion gael gwybod bron ar unwaith os bydd cysylltiad rhwng yr heddlu â theuluoedd sydd â phlant oedran ysgol. Mae pob awdurdod lleol wedi llofnodi Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru, sy'n eu helpu i rannu gwybodaeth bersonol yn effeithiol ac yn gyfreithlon, ac yn caniatáu i wasanaethau gydweithio er mwyn cefnogi pobl. Fodd bynnag, mae'r defnydd o brotocolau rhannu gwybodaeth rhwng awdurdodau lleol a gwasanaethau eraill ac asiantaethau allanol yn anghyson. Dywed arweinwyr ysgol nad ydynt bob amser yn dod i wybod am ddatblygiadau pwysig ym mywyd plant yn amserol. Mewn rhai achosion, mae hyn yn golygu y gall plant gyrraedd yr ysgol yn dilyn digwyddiad trawmatig, arwyddocaol nad yw'r ysgol yn gwybod amdano, ac mae hyn yn atal yr ysgol rhag paratoi'n briodol.

11 Mae gan holl wasanaethau addysg awdurdodau lleol drefniadau i drafod plant a phobl ifanc trwy gyfarfodydd cynllunio amlasiantaethol neu gyfarfodydd 'y tîm o amgylch y teulu'. Mae'r rhain yn effeithiol ar y cyfan wrth nodi a chefnogi disgyblion sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae cyfarfodydd amlasiantaeth a drefnir gan ysgolion neu awdurdodau lleol yn ffordd werthfawr o gynllunio cymorth ac ymyriadau. Pan fydd y cyfarfodydd hyn yn rheolaidd, â phawb yn bresennol, gallant fod yn bwrpasol ac effeithiol. Fodd bynnag, yn rhy aml, nid yw gweithwyr achos o asiantaethau eraill yn mynychu'r cyfarfodydd hyn yn ddigon rheolaidd.

12 Mae ychydig o awdurdodau lleol wedi datblygu'u gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf i greu gwasanaethau 'Cymorth Cynnar' neu 'Ganolfannau Cymorth Cynnar'. Mae'r canolfannau hyn yn cynnwys yr heddlu, addysg ac asiantaethau gwirfoddol. Bwriedir i'r rhain gynorthwyo teuluoedd nad ydynt yn gymwys ar gyfer gwasanaethau statudol. Mae'r rhain yn arbennig o ddefnyddiol i gefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mewn llawer o awdurdodau lleol ac ardaloedd heddlu, mae gwasanaethau iechyd, addysg a'r heddlu yn gweithio'n strategol trwy'r Rhaglen Camau Cynnar gyda'n Gilydd. Er bod y rhaglen hon wedi cyrraedd camau gwahanol ledled Cymru, mae'n dwyn partneriaid ynghyd i gynllunio ymyriadau cynnar ac mae'n dangos arwyddion cynnar addawol.

## Argymhellion

**Dylai ysgolion:**

A1 Ddarparu cymorth targedig a chymorth ysgol gyfan i ddisgyblion agored i niwed, mewn partneriaeth â gwasanaethau eraill, ar sail dealltwriaeth o effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar blant

A2 Blaenoriaethu meithrin perthynas ymddiriedus a chadarnhaol gyda theuluoedd, sy'n eu hannog i rannu gwybodaeth bwysig gyda'r ysgol

A3 Sicrhau bod mannau tawel, anogol a chefnogol ar gael yn briodol i bob disgybl agored i niwed, yn enwedig y rhai sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, ac yn arbennig i ddisgyblion uwchradd hŷn

A4 Rhoi hyfforddiant a chymorth i holl staff ysgolion uwchradd, nid dim ond staff sy'n gwneud gwaith bugeiliol, i ddeall eu rôl fel oedolion ymddiriedus posibl i ddisgyblion agored i niwed

A5 Sefydlu mecanweithiau i rannu gwybodaeth am ddisgyblion a theuluoedd agored i niwed yn gyfrinachol ac yn sensitif, gyda staff perthnasol

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:**

A6 Rannu gwybodaeth berthnasol am ddisgyblion a theuluoedd agored i niwed yn brydlon gydag ysgolion

A7 Cynorthwyo ysgolion i ddatblygu strategaethau sy'n ystyriol o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod er mwyn cefnogi disgyblion agored i niwed

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A8 Hyrwyddo Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ac annog rhannu gwybodaeth am ddisgyblion a theuluoedd agored i niwed yn amserol gydag ysgolion

# Disgyblion ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion prif ffrwd

## Prif ganfyddiadau

### Cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion ag AAA

1 Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelom â nhw, mae staff yn defnyddio ystod eang o ddulliau i sicrhau eu bod yn nodi anghenion disgyblion yn gynnar. Un elfen allweddol o'r broses hon yw'r cydweithio agos rhwng ysgolion a lleoliadau sy'n eu galluogi i rannu gwybodaeth am ddisgyblion ag AAA wrth iddynt symud o un cyfnod o'u haddysg i'r nesaf. Mae'r trefniadau hyn yn helpu sicrhau bod dealltwriaeth drylwyr gan yr holl staff o anghenion, diddordebau a galluoedd disgyblion cyn iddynt ymuno â'r ysgol.

2 Lle mae disgyblion yn derbyn cymorth gan asiantaethau allanol, fel gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, mae staff yn ystyried y wybodaeth hon yn ofalus er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gynhwysfawr o anghenion y plentyn. Maent yn rhoi ystyriaeth dda i'r wybodaeth mewn adroddiadau a ddarparwyd gan arbenigwyr, fel seicolegwyr addysg, therapyddion lleferydd ac iaith a therapyddion galwedigaethol, wrth gynllunio darpariaeth ar gyfer y disgyblion hyn.

3 Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion, mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ofalus i gynllunio ymyriadau sy'n cael eu cydweddu'n ofalus ag anghenion disgyblion unigol. Mae llawer o ysgolion yn defnyddio ystod eang o ymyriadau sy'n adlewyrchu anghenion cymhleth eu disgyblion. Mae staff yn yr ysgolion hyn yn gweithio gyda staff arbenigol o'r awdurdod lleol neu'r bwrdd iechyd i gynllunio a gweinyddu cyflwyno'r ymyriadau hyn yn unol â gofynion pob plentyn.

4 Mewn llawer o ysgolion, mae staff yn gosod targedau defnyddiol a phriodol ar gyfer disgyblion yn eu cynlluniau addysg unigol (CAUau). Mae staff yn ystyried yr ystod eang o wybodaeth sydd ar gael am gyrhaeddiad disgyblion i osod targedau heriol sy'n perthnasu'n dda ag anghenion a dyheadau disgyblion ar gyfnodau gwahanol yn eu dysgu. Maent yn ymgynghori'n ofalus gyda disgyblion, rhieni a gofalwyr i ffurfio targedau sydd mor ddefnyddiol ag y bo modd i'r disgybl, ac yn trafod strategaethau i helpu teuluoedd fynd i'r afael â'r targedau hyn gartref.

5 Mewn ysgolion lle mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA yn gryf, ceir trefniadau cadarn i fonitro ac olrhain cynnydd yr holl ddisgyblion yn yr ysgol. Mewn llawer o ysgolion, mae monitro cynnydd ar gyfer disgyblion ag AAA yn seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth o les disgyblion a beth sy'n bwysig i bob plentyn. Yn yr ysgolion hyn, mae staff yn rhoi ystyriaeth ofalus i olrhain cynnydd disgyblion mewn dysgu mewn meysydd fel ymddygiad, presenoldeb ac ymgysylltiad mewn gwersi, a'r cynnydd a wneir gan ddisgyblion tuag at y targedau yn eu CAUau. Mae'r wybodaeth hon, ynghyd â gwybodaeth am y cynnydd a wneir gan ddisgyblion tuag at eu nodau therapiwtig, yn darparu golwg fwy cyflawn i staff o'r cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud.

### Ymgysylltu ag eraill i gefnogi disgyblion ag AAA

6 Ym mron yr holl ysgolion yr ymwelwyd â nhw, ceir prosesau datblygedig i ymgysylltu â rhieni, gofalwyr a theuluoedd. Mae'r rhain yn cynnwys ystod eang o gyfleoedd i staff feithrin perthnasoedd cynhyrchiol gyda rhieni a gofalwyr, ennyn eu hymddiriedaeth a'u galluogi i lywio'r ddarpariaeth ar gyfer eu plant.

7 Mae bron yr holl ysgolion yn datblygu partneriaethau cryf gydag ysgolion eraill a darparwyr addysg, yn lleol ac yn rhanbarthol. Mae'r partneriaethau hyn yn sicrhau bod trefniadau pontio ar gyfer disgyblion ag AAA yn gadarn ac yn galluogi ysgolion i rannu arfer dda gyda staff mewn ysgolion eraill ac i ddysgu oddi wrthynt.

8 Ym mron pob ysgol lle ceir dosbarthiadau arbenigol neu ganolfannau adnoddau, mae'r cyfathrebu rhwng y staff yn y ddau leoliad yn gryf ac yn cefnogi symudiadau disgyblion o fewn yr ysgol. Yn yr ysgolion hyn, mae staff yn y ganolfan adnoddau yn gweithio gyda staff yng ngweddill yr ysgol i rannu'u gwybodaeth arbenigol a hyrwyddo strategaethau i'w cynorthwyo o amgylch yr ysgol.

9 Ym mron pob ysgol, mae gweithio amlasiantaeth yn rhan hanfodol o gymorth yr ysgol o ddydd i ddydd i ddisgyblion ag AAA. Mae'r ysgolion hyn yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid, gan gynnwys ystod eang o asiantaethau allanol. Maent yn ymateb yn feddylgar i'r cyngor gan y gweithwyr proffesiynol hyn er mwyn llywio cynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion a gosod targedau yn CAUau disgyblion.

10 Un elfen allweddol o ddefnyddio gwasanaethau arbenigol yn llwyddiannus yw medr staff yn yr ysgol wrth gwblhau dogfennau atgyfeirio yn brydlon. Lle mae ysgolion yn fwyaf llwyddiannus o ran sicrhau bod y cymorth hwn ar waith, maent yn eiriol yn gryf dros eu disgyblion a theuluoedd ac yn herio'n gadarn pan na fydd y cymorth a ddarperir yn diwallu anghenion disgyblion.

### Arweinyddiaeth effeithiol ar gyfer AAA

11 Ym mron yr holl ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae uwch arweinwyr yn sefydlu gweledigaeth ac ethos cynhwysol iawn sy'n pennu dyheadau uchel ar gyfer yr holl ddisgyblion, beth bynnag yw eu galluoedd a'u hanghenion. Mae'r weledigaeth hon wedi'i seilio ar ddarparu cyfle cyfartal i bob disgybl, ac mae'n treiddio drwy'r ysgol gyfan. Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn cyfleu'r weledigaeth hon yn gryf ac yn sicrhau bod yr holl staff yn deall eu cyfrifoldebau i ddisgyblion ag AAA. O ganlyniad, mae'r arweinwyr hyn yn hyrwyddo datblygu amgylcheddau gofalgar a chefnogol, lle caiff disgyblion eu hannog i dyfu fel unigolion a lle maent yn cyflawni'n dda mewn perthynas â'u mannau cychwyn.

12 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae arweinwyr yn darparu hyfforddiant arbenigol sydd wedi'i gynllunio'n dda ar gyfer staff er mwyn cefnogi disgyblion ag AAA. Yn yr ysgolion hyn, mae'r CydAAA yn gweithio'n agos gydag uwch arweinwyr eraill i ddatblygu medrau staff, ar sail dealltwriaeth drwyadl o anghenion disgyblion unigol. Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cysylltu'n dda â phrosesau rheoli perfformiad, ac yn galluogi'r holl staff i ddatblygu'u dealltwriaeth o AAA yn gyffredinol, yn ogystal â'r arbenigedd penodol i gefnogi disgyblion unigol.

13 Ym mron pob ysgol, mae arweinwyr yn monitro ac yn gwerthuso cynnydd disgyblion

ag AAA yn ofalus, ac yn addasu'u darpariaeth yn gyfatebol.  Yn yr ysgolion hyn, mae hunanwerthuso effeithiol yn dechrau gyda dealltwriaeth gadarn o anghenion pob disgybl, a pharodrwydd i addasu'r ddarpariaeth lle bo angen er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd yn unol â'u galluoedd.  Mae'r dull gweithredu hwn yn llywio hyfforddiant staff.  Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae arweinwyr yn adolygu anghenion disgyblion a set medrau staff cymorth a staff addysgu yn rheolaidd.

### Argymhellion

**Dylai ysgolion:**

A1 Wella ansawdd targedau yn CAUau disgyblion er mwyn hyrwyddo cynnydd disgyblion mewn dysgu ac annibyniaeth

A2 Sicrhau bod trefniadau hunanwerthuso yn rhoi mwy o sylw i'r cynnydd a wna disgyblion ag AAA o ran eu hanghenion, eu galluoedd a'u mannau cychwyn unigol

**Dylai awdurdodau lleol:**

A3 Gynorthwyo ysgolion i gael y gwasanaethau arbenigol allanol y mae eu hangen arnynt i hyrwyddo lles a chynnydd disgyblion ag AAA

A4 Hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth rhwng ysgolion arbennig ac ysgolion eraill a gynhelir yn yr awdurdod lleol

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A5 Gynorthwyo ysgolion ac awdurdodau lleol yn ystod cyfnod gweithredu'r trefniadau statudol newydd er mwyn cefnogi disgyblion ag ADY

## Atal – pa mor dda y mae ysgolion a gynhelir yn gweithredu eu dyletswyddau o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015

### Prif ganfyddiadau

1 Mae arweiniad clir a chynhwysfawr ar waith ar gyfer ysgolion ynglŷn â'u dyletswyddau ar gyfer Atal o dan strategaeth CONTEST Llywodraeth y DU, a Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 (y Ddeddf). Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu arweiniad ar gyfer ysgolion yng Nghymru, sy'n cynnwys sicrhau bod holl staff ysgolion wedi cael eu hyfforddi i ddeall eu dyletswyddau i gynorthwyo disgyblion, cyfeirio ymlaen y disgyblion a allai fod mewn perygl o gael eu denu at radicaleiddio neu eithafiaeth, a defnyddio'r cwricwlwm i helpu disgyblion i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen i fod yn ddinasyddion gwydn ac ymrwymedig.

### Gwaith ysgolion

2 Mae gan ysgolion rôl allweddol mewn nodi a chynorthwyo disgyblion y nodwyd eu bod mewn perygl o ddioddef camfanteisio. Ym mwyafrif yr ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o'u rôl a'u cyfrifoldebau i ddiogelu disgyblion, gan gynnwys o ran radicaleiddio ac eithafiaeth. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw arweinwyr yn amgyffred bod radicaleiddio ac eithafiaeth yn berthnasol i'w hysgol na'r ardal gyfagos. Mae'r diffyg sylw hwn i Atal yn golygu y gallai staff yn yr ysgolion hyn golli cyfle i nodi a mynd i'r afael â phryderon cynnar am ddisgybl.

3 Mae gan ysgolion ran allweddol mewn diogelu pobl ifanc rhag dylanwadau allai radicaleiddio o bosibl. Mae eu defnydd effeithiol o lwybrau atgyfeirio Atal yn dangos sut gall partneriaid weithio gyda'i gilydd i gadw pobl ifanc yn ddiogel. Cysylltiadau o ysgolion yng Nghymru ag Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru (WECTU) ac ag awdurdodau lleol ynghylch Atal yw'r ffynhonnell uchaf ond un ar gyfer ceisiadau am gyngor anffurfiol ac ar gyfer atgyfeiriadau, a gwneir y rhain mewn modd amserol, ar y cyfan. Mae atgyfeiriadau o ysgolion yn cynnwys ystod eang o faterion fel pryderon ynghylch Islam radical, yr asgell dde eithafol, ac yn gynyddol, unigolion sy'n cael eu denu gan ideolegau aneglur, a adnabyddir fel effaith Columbine.

4 Gall iaith hiliol, bwlio a gwrthdaro rhyng-hiliol rhwng disgyblion fod yn arwyddion pwysig o safbwyntiau hiliol neu eithafol. Disgwylir i awdurdodau lleol gasglu data am fwlio mewn ysgolion, gan gynnwys bwlio â chymhellion hiliol, ond nid yw'r data sydd ar gael bob amser yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad. Mae hyn oherwydd bod lleiafrif o ysgolion yn osgoi dynodi achosion o fwlio fel achosion hiliol.

5 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae atgyfeirio disgyblion at y panel Sianel yn gweithio'n dda, ymgynghorir ag ysgolion ac fe gânt eu cynnwys mewn datblygu'r cynllun cymorth a'r cynllun gweithredu dilynol. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw ysgolion wedi cael eu cynnwys mewn datblygu'r cynlluniau hyn, nac wedi cael eu cynnwys mewn unrhyw weithgarwch cymorth dilynol. Nid ydynt wedi cael gwybod am lesiant na chynnydd y disgybl ychwaith, hyd yn oed pan fydd y disgybl yn parhau i fynychu'r ysgol yn amser llawn.

6 Mae'n ofynnol i bob ysgol gael cynllun argyfwng ar waith, yn amlinellu'r modd y bydd yn ymateb i, ac yn rheoli, digwyddiadau annisgwyl sy'n achosi risg i'w staff a'i disgyblion, ei hadeiladau a'r safle, ac i'w gallu i gyflawni ei busnes o ddydd i ddydd. Mae hyn yn cynnwys sut bydd yn ymateb i unrhyw fath o fygythiad neu argyfwng sy'n ei gwneud yn ofynnol diogelu ei hadeilad a'i safle. Mae gweithdrefnau 'cloi i lawr' ysgolion wrthi'n cael eu datblygu ledled Cymru ar hyn o bryd. Mewn partneriaeth ag ychydig o ysgolion ac awdurdodau lleol, mae WECTU wedi datblygu arweiniad enghreifftiol ar gyfer asesu safleoedd ysgolion, gan arwain at ffurfio cynllun yn seiliedig ar risg, sy'n ymatebol i leoliad pob ysgol.

7 O dan erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)[1], a Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005,[2] mae'n ofynnol i bob ysgol gael mecanweithiau ar waith sy'n golygu y gellir ymgynghori â phobl ifanc, ac mae'r cyfleoedd hyn yn elfen bwysig i adeiladu ysgol ddiogel. Mewn lleiafrif o ysgolion, dywed disgyblion nad yw'r trefniadau hyn yn ddigon trylwyr, maent yn aml yn arwynebol ac nid ydynt yn ymgysylltu'n iawn â'u pryderon go iawn. Ar y llaw arall, yn y mwyafrif o ysgolion, dywed disgyblion eu bod yn cael nifer o gyfleoedd i fynegi eu safbwyntiau a'u teimladau yn yr ysgol. Pan na wrandewir ar ddisgyblion neu pan na chânt eu cymryd o ddifrif, mae'n llai tebygol y tynnir sylw arweinwyr ysgol at eu pryderon am unrhyw ymddygiadau peryglus neu fynegiannau o syniadau radical neu eithafol a allai godi yn yr ysgol.

## Rôl allweddol y cwricwlwm

8 Un elfen bwysig o ddyletswyddau ysgol o dan y Ddeddf[3] yw rôl yr ysgol a'i chwricwlwm yn addysg disgyblion mewn dinasyddiaeth, yn ogystal â sut gallai disgyblion ddiogelu eu hunain rhag y dylanwadau a'r pwysau hynny a allai geisio camfanteisio arnynt. Nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn y sampl yn gwneud digon i sicrhau bod eu cwricwlwm yn gwneud hyn, yn bennaf oherwydd nad yw athrawon yn gallu elwa'n hawdd ar gymorth, hyfforddiant ac arweiniad priodol.

9 Mae canllawiau[4] Llywodraeth Cymru yn amlygu rôl bwysig dull ysgol gyfan o alluogi disgyblion i ddatblygu'r wybodaeth, y medrau a'r ddealltwriaeth i'w diogelu rhag arferion camfanteisio. Gall cwricwlwm, polisïau, cymorth bugeiliol ac ethos yr ysgol i gyd gyfrannu at sefydlu amgylchedd sy'n galluogi neu'n herio arferion camfanteisio, a'r agweddau sy'n eu caniatàu. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i athrawon fod yn hyderus eu bod yn gallu ymdrin â materion sensitif a chynhennus a allai godi yn ystod y diwrnod ysgol. Er bod ysgolion wedi cael cymorth da i ddeall eu dyletswyddau o

[1] Mae Erthygl 12 1 yn datgan y dylai partïon argyhoeddi'r plentyn sy'n gallu ffurfio'i safbwyntiau ei hun fod ganddo'r hawl i fynegi'r safbwyntiau hynny yn rhydd ym mhob mater sy'n effeithio ar y plentyn, gan roi pwys priodol i safbwyntiau'r plentyn yn unol â'i oedran a'i aeddfedrwydd (Y Cenhedloedd Unedig, 1989).

[2] Rhaid i gorff llywodraethol ysgol sefydlu cyngor ysgol er mwyn galluogi disgyblion i drafod materion yn ymwneud â'u hysgol, eu haddysg ac unrhyw faterion eraill sy'n destun pryder neu o ddiddordeb iddynt, a gwneud sylwadau ar y rhain i'r corff llywodraethol a'r pennaeth (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2005).

[3] Am ragor o fanylion, gweler adrannau 58, a 64 y ddogfen Dyletswydd Atal Ddiwygiedig: Canllaw ar gyfer Cymru a Lloegr (Llywodraeth EM, 2015) ac Adran 4.1 canllawiau Llywodraeth Cymru (2016a) ar gyfer ysgolion a darparwyr addysg eraill Gwrthsafiad a pharch: Datblygu cydlyniant cymunedol.

[4] Am ragor o fanylion, gweler adran 4.1 canllawiau Llywodraeth Cymru (2016a) ar gyfer ysgolion a darparwyr addysg eraill Gwrthsafiad a pharch: Datblygu cydlyniant cymunedol; a thud.11 ac 14 y Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008).

dan y Ddeddf, cafwyd llai o arweiniad ynglŷn â sut i integreiddio'r gwaith hwn yn y cwricwlwm.

10 Nid yw ysgolion wedi cael digon o gymorth na her i'w helpu i ddatblygu eu cwricwlwm yn y maes hwn. Nid yw awdurdodau lleol a chonsortia wedi gweithio gyda'i gilydd yn ddigon da ar gyfer datblygu cymorth cwricwlwm ar gyfer cynnwys agweddau ar ddinasyddiaeth sy'n meithrin gwydnwch ymhlith disgyblion. Er enghraifft, nid yw'r agwedd hon wedi cael ei chynnwys yn ddigon da mewn gwaith datblygiadol gydag ysgolion arloesi (gwella ansawdd erbyn hyn) i'w datblygu o fewn maes dysgu a phrofiad iechyd a llesiant. Bu cymorth gan y rhan fwyaf o gonsortia yn generig. Fodd bynnag, mae un consortiwm rhanbarthol wedi defnyddio dull mwy rhagweithiol o gefnogi ysgolion yn ei ranbarth i ddatblygu'r agwedd hon ar eu cwricwlwm.

11 Mae ychydig o ysgolion yn y sampl yn gwneud defnydd da o adnoddau allanol wrth ddelio'n uniongyrchol â materion ynghylch radicaleiddio ac eithafiaeth. Fodd bynnag, nid yw llawer o ysgolion yn ymwybodol o ystod yr adnoddau ystafell ddosbarth sydd ar gael iddynt, gan gynnwys y rhai ar Hwb. Dywedodd athrawon wrthym fod rhaid iddynt greu eu deunyddiau eu hunain ar gyfer y testun hwn yn rheolaidd.

12 Trwy ddefnyddio ymagwedd ysgol gyfan at y maes dysgu hwn, gellir atgyfnerthu'r negeseuon allweddol ar draws y cwricwlwm ac ar draws blynyddoedd ysgol. Pan gaiff profiadau dysgu eu cefnogi gan asiantaethau allanol fel rhan o ymagwedd ysgol gyfan, maent yn fwy effeithiol wrth newid agweddau ac ymddygiad. Pan fydd cynllunio gan ysgolion yn llai cydlynus, maent yn colli cyfleoedd i atgyfnerthu dysgu disgyblion a datblygu eu medrau, eu hagweddau a'u gwerthoedd.

13 Mae'r ysgolion mwyaf effeithiol wedi mapio eu cwricwlwm yn dda gyda dangosyddion clir i ble mae cyfleoedd i feithrin gwydnwch disgyblion wedi cael eu cynnwys mewn llawer o feysydd pwnc ac yn cael eu cwmpasu'n gynyddol yn ystod pob blwyddyn ysgol. Pan gaiff materion yn ymwneud ag eithafiaeth, radicaleiddio a therfysgaeth eu cymryd o ddifrif, defnyddir y cwricwlwm yn greadigol i helpu disgyblion i archwilio eu hymddygiadau, eu credoau a'u gwerthoedd moesegol. Yn benodol, gall UCDau da ac ysgolion arbennig da a gynhelir gan awdurdodau lleol ddefnyddio'r dysgu hwn i gefnogi anghenion penodol eu disgyblion yn well, yn enwedig y rhai sydd fwyaf mewn perygl o fod yn destun dylanwadau amhriodol.

14 Mae llawer o'r rhai a gafodd eu cyfweld ar gyfer yr arolwg yn meddwl bod addysgu am y materion hyn yn rôl arbenigol. Mae llawer o'r athrawon hyn hefyd yn meddwl bod materion radicaleiddio ac eithafiaeth yn faterion sy'n digwydd ymhell o'u hardal a phoblogaeth eu disgyblion. Maent o'r farn fod y risg i'w disgyblion yn fach iawn ac yn credu nad oes angen canolbwyntio ar hyn yn y cwricwlwm.

15 Mae'r holl ysgolion a gynhelir yn cynnwys cyfleoedd yn eu cwricwlwm i ddysgu am ddiwylliannau a chrefyddau eraill, a dysgu am effaith cyfundrefnau gwleidyddol gormesol. Mae'r cyfleoedd hyn fel arfer trwy addysg bersonol a chymdeithasol a meysydd pwnc y dyniaethau. Fodd bynnag, o gwmpasu materion o'r fath ar lefel pwnc, gellir osgoi materion anos fel archwilio'r hyn sy'n arwain at ideolegau gwleidyddol gormesol a gwrthdaro rhyng-hiliol. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw Islam wedi'i chynnwys yn y cwricwlwm addysg grefyddol, am amrywiaeth o resymau. Pan fydd ysgolion yn llai effeithiol yn ymgysylltu â'r meysydd anos neu fwy sensitif, mae

hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd ar gyfer datblygu meddwl beirniadol a thrafodaeth agored.

16 Mae gan ysgolion ddyletswydd[5] i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol disgyblion, yn ogystal â gwerthoedd sylfaenol rheol gyfreithiol, rhyddid yr unigolyn, a pharch a goddefgarwch ar y ddwy ochr o ran y rhai sydd â gwahanol ffydd a chredoau. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio'n benodol ar y rhain fel gwerthoedd cenedlaethol sy'n ategu democratiaeth a chymdeithas Brydeinig, a'u cyfraniad at gydlyniant cymunedol, a dinasyddiaeth. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at y 'gwerthoedd' hyn yn unig, ac nid at 'werthoedd Prydeinig', ac o ganlyniad, prin yw'r dryswch ynglŷn â'r hyn y mae Prydeinig yn ei olygu yn y cyd-destun hwn.

### Gwaith awdurdodau lleol

17 Mae'r holl awdurdodau lleol y gwnaed arolwg ohonynt wedi sicrhau cyfle i ysgolion elwa ar hyfforddiant ynglŷn â'u dyletswyddau o dan y Ddeddf. Caiff yr hyfforddiant hwn ei gynnwys yn yr hyfforddiant diogelu generig ochr yn ochr ag agweddau eraill lle gallai plant fod mewn perygl o ddioddef camfanteisio, fel camfanteisio'n rhywiol ar blant, gweithgarwch troseddol wedi'i drefnu fel llinellau cyffuriau, ac ideolegau radical ac eithafol. Mae ysgolion hefyd wedi gallu cymryd rhan yng nghwrs y Swyddfa Gartref, sef Gweithdy i Godi Ymwybyddiaeth am Atal (WRAP), sydd ar gael trwy WECTU. Gan amlaf, darperir yr hyfforddiant hwn ar gyfer uwch arweinwyr yn unig, a'u rôl nhw yw lledaenu'r wybodaeth ymhlith aelodau staff eraill. Nid yw'r monitro gan awdurdodau lleol yn dda o ran p'un a yw'r lledaenu hwn yn digwydd mewn ysgolion, ac ansawdd yr hyfforddiant hwnnw.

18 Mae gan bob awdurdod lleol uwch swyddogion sy'n deall eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf, ac mae ganddynt fecanweithiau ar waith i roi cymorth ac arweiniad i'w hysgolion. Maent yn integreiddio eu gweithdrefnau ar gyfer rheoli pryderon am radicaleiddio ac eithafiaeth yn eu trefniadau partneriaeth ar gyfer rheoli pryderon am ddiogelu. Mae ganddynt systemau cymorth effeithiol ar waith hefyd ar gyfer ysgolion sy'n ceisio cyngor ac arweiniad am risgiau ac atgyfeiriadau posibl. Yn gyffredinol, ni chaiff y ceisiadau hyn am gyngor ac arweiniad eu dadansoddi na'u hystyried yn ddigon da gan leiafrif o'r awdurdodau lleol er mwyn darparu gwybodaeth bwysig am y materion sy'n wynebu ysgolion.

19 Mae awdurdodau lleol yn darparu ystod ddefnyddiol o bolisïau enghreifftiol sy'n cwmpasu ystod eang y cyfrifoldebau ar gyfer ysgolion o dan y Ddeddf. Mae bron pob un o'r ysgolion yn y sampl yn defnyddio'r polisïau enghreifftiol hyn yn dda. Lleiafrif o ysgolion yn unig sy'n cynnwys cyfeiriad eglur at y risgiau sy'n deillio o ddeunyddiau ar-lein radical ac eithafol yn eu polisïau sy'n cwmpasu TGCh.

20 Mae'r holl awdurdodau lleol yn monitro pa mor dda y mae eu hysgolion yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau diogelu. Fodd bynnag, lleiafrif o awdurdodau lleol yn unig sy'n monitro eu hysgolion yn fanylach gan ddefnyddio naill ai Pecyn Offer Dyletswydd

[5] Am ragor o fanylion, gweler adrannau 58, a 59 y ddogfen Dyletswydd Atal Ddiwygiedig: Canllaw ar gyfer Cymru a Lloegr (Llywodraeth EM, 2015); ac adran 4.4 canllawiau Llywodraeth Cymru (2016a) ar gyfer ysgolion a darparwyr addysg eraill Gwrthsafiad a pharch: Datblygu cydlyniant cymunedol; a thudalennau 13 ac 19 Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008).

Prevent i Awdurdodau Lleol a Phartneriaid Awdurdodau Lleol y Swyddfa Gartref (2018) neu ddogfen Gwrthsafiad a pharch – Datblygu cydlyniant cymunedol: offeryn hunanasesu 2016 Llywodraeth Cymru (2016b)

## Argymhellion

**Dylai ysgolion:**

A1 Gynnwys risgiau i ddisgyblion o ideolegau radical ac eithafol ym mholisïau'r ysgol, yn enwedig polisïau sy'n cwmpasu TGCh a diogelwch ar-lein

A2 Cofnodi ac adrodd am bob achos o iaith hiliol a bwlio hiliol yn briodol, a chynnig cymorth a her addas i ddioddefwyr a chyflawnwyr

A3 Cydnabod bod radicaleiddio ac eithafiaeth yn risgiau gwirioneddol i ddisgyblion ym mhob ysgol, a sicrhau bod hyfforddiant staff, polisïau a'r cwricwlwm yn mynd i'r afael â'r risgiau hyn yn briodol

A4 Sicrhau bod gan yr holl ddisgyblion lais a'u bod yn gallu rhannu unrhyw bryderon sydd ganddynt gyda'r ysgol am ymddygiadau neu fynegiannau o syniadau radical neu eithafol

**Dylai awdurdodau lleol:**

A5 Fonitro gweithgarwch diogelu ysgolion yn ymwneud â dyletswyddau o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 gan ddefnyddio meini prawf ym mhecynnau offer hunanasesu'r Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru

A6 Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod ysgolion yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau gweithredu ôl-gyfeirio er mwyn rhoi'r cymorth gorau i ddisgyblion sy'n destun cymorth Sianel

A7 Gweithio gyda chonsortia rhanbarthol i gynorthwyo ysgolion i ddatblygu eu cwricwlwm i gynorthwyo disgyblion i feithrin gwydnwch pan fyddant yn wynebu dylanwadau radical ac eithafol

A8 Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod ceisiadau am gyngor cyn cyfeiriadau yn cael eu cofnodi er mwyn darparu gwybodaeth am y materion sy'n wynebu ysgolion

A9 Gwella'r arfer o olrhain nifer yr arweinwyr ysgol, y llywodraethwyr a'r athrawon sy'n elwa ar hyfforddiant, a sicrhau bod yr hyfforddiant yn cael ei raeadru'n effeithiol

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A10 Gweithio gydag awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i gynorthwyo ysgolion i feithrin gwydnwch disgyblion pan fyddant yn wynebu dylanwadau radical ac eithafol

# Partneriaethau â chyflogwyr mewn ysgolion uwchradd ac arbennig

## Prif ganfyddiadau

1 Pan fydd ysgolion yn ymgysylltu'n dda ac yn gweithio'n agos gyda chyflogwyr, mae gan ddysgwyr ddealltwriaeth well o fyd gwaith a'r priodoleddau sydd eu hangen arnynt yn y dyfodol. Mae effeithiolrwydd y gwaith partneriaeth hwn fel arfer yn dibynnu ar weledigaeth ac ysgogiad y pennaeth, uwch reolwyr a staff yr ysgol.

2 Mae ysgolion yn ymgysylltu â chyflogwyr mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae llawer o ysgolion yn cynnig ystod addas o brofiadau yn gysylltiedig â gwaith i ddysgwyr, gan gynnwys profiadau sy'n rhan o'r cwricwlwm, diwrnodau thema pan gaiff yr amserlen arferol ei hatal, gweithgareddau allgyrsiol, ymweliadau â lleoedd gwaith, neu drwy siaradwyr gwadd.

3 Lleiafrif o ysgolion yn unig sy'n cynnig profiad gwaith[6] i ddysgwyr erbyn hyn. Mae hyn oherwydd y bu llawer o ysgolion yn araf yn ymateb i'r newid yng nghyfrifoldebau Gyrfa Cymru. Pan fydd ysgolion wedi cynnal aelod o staff sy'n gyfrifol am yrfaoedd, yn aml, maent yn darparu cyfleoedd o hyd i ddysgwyr gymryd rhan mewn profiad gwaith. Er enghraifft, roedd gan un ysgol yr ymwelwyd â hi yng Ngogledd Cymru rwydwaith eang o ryw 130 o gyflogwyr, ac mae bron pob un o ddysgwyr Blwyddyn 10 a Blwyddyn 12 yn mynd ar leoliadau gwaith yn ystod tymor yr haf. Mae ychydig o ysgolion yn cydweithio i ariannu costau sicrhau bod lleoliadau gwaith yn ddiogel a saff ar gyfer dysgwyr, a bod cyflogwyr yn cael eu harchwilio. Fodd bynnag, yn gyffredinol, disgwylir i ddysgwyr drefnu eu lleoliadau gwaith eu hunain, gyda chymorth gan yr ysgol ar gyfer dysgwyr sy'n ei chael yn anodd cyflawni hyn.

4 Mae ychydig o ysgolion wedi datblygu cysylltiadau â busnesau lleol sy'n fuddiol i'r ddwy ochr. Mae gan un ysgol gysylltiadau cryf â safle cynhyrchu dur. Gall dysgwyr ymweld â'r safle i weld sut mae'r safle yn gweithredu, a dysgu am werth prentisiaethau. Mewn ysgol arall, mae dysgwyr sydd â diddordeb mewn gwaith peirianneg yn gweithio gyda gweithgynhyrchwr teganau lleol yn ennill profiadau go iawn defnyddiol, gan ddefnyddio dylunio â chymorth cyfrifiadur a datblygu prototeipiau ar gyfer teganau newydd.

5 Mae llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn ymgymryd â menter y Gyfnewidfa Addysg Busnes ac yn gwahodd cyflogwyr (er enghraifft y lluoedd arfog, yr heddlu a'r diwydiant adeiladu) i ymweld â'r ysgol i siarad â dysgwyr am eu gyrfaoedd. Yn aml, mae'r ymweliadau hyn yn cynnwys llenwi ffurflenni cais ffug a chymryd rhan mewn chwarae rôl cyfweliad. Mae gan un ysgol bartneriaeth gref â dau gwmni adeiladu sy'n ymweld â'r ysgol i ganolbwyntio ar y medrau sydd eu hangen ar gyfer y diwydiant, gan gynnwys cyfathrebu, arweinyddiaeth a gweithio mewn tîm.

6 Mae llawer o ysgolion yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau mentergarwch trwy Gymhwyster Bagloriaeth Cymru. Er enghraifft, mae rhai ysgolion yn defnyddio cysyniad Dragons' Den y rhaglen deledu i annog medrau entrepreneuraidd dysgwyr. Addysgir dysgwyr i ddatblygu cynlluniau busnes, a chanfod costau, gwerthiannau,

[6] Lleoliadau gwaith a gynigir gan gyflogwyr ar gyfer dysgwyr

elw a cholled i'w galluogi i hyrwyddo cynnyrch i ddarpar fuddsoddwyr o fusnesau lleol. Mae ychydig o ysgolion yn darparu profiadau yn gysylltiedig â gwaith yn y gymuned, trwy Gymhwyster Bagloriaeth Cymru yn bennaf. Er enghraifft, mae gan un ysgol gysylltiadau cryf iawn â'r sector iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae dysgwyr yn ymweld â chartrefi gofal i ennill medrau cymdeithasol trwy siarad â phreswylwyr. Mae gan ysgol arall gysylltiadau â phrosiectau cymunedol sy'n darparu profiadau yn gysylltiedig â gwaith mewn garddio.

7 Mae bron pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn cynnal ffair yrfaoedd flynyddol ar gyfer eu dysgwyr, y maent yn gwahodd cyflogwyr lleol a chenedlaethol, colegau, prifysgolion a darparwyr eraill iddi. Mae dysgwyr yn mynychu'r ffair i siarad â chyflogwyr ac yn trafod eu hopsiynau gyrfa, ond nid yw llawer o ysgolion yn mesur effaith y ffeiriau gyrfaoedd hyn yn ddigon da.

8 Pan fydd cyflogwyr yn ymgysylltu'n dda ag ysgolion, gallant ddefnyddio mentrau i hyrwyddo rhaglenni prentisiaeth o fewn eu sefydliad. Maent yn codi ymwybyddiaeth dysgwyr am y medrau a'r priodoleddau sydd eu hangen i lwyddo yn y farchnad swyddi. Gwnaeth un cyflogwr sylw am y budd i ddatblygiad eu staff eu hunain, trwy roi cyfle i staff weithio gyda phobl ifanc i'w paratoi ar gyfer y byd gwaith.

9 Mewn ychydig iawn o awdurdodau lleol, mae gan staff ddealltwriaeth gref o'r farchnad lafur economaidd yn yr ardal. Mae gan un awdurdod lleol dîm addysg, cyflogaeth a hyfforddiant dynodedig sy'n gweithio'n uniongyrchol gydag ysgolion i hyrwyddo a hwyluso addysg yn gysylltiedig â gwaith a phartneriaethau â chyflogwyr. Mae hyn yn helpu athrawon i hyrwyddo dealltwriaeth o'r byd gwaith trwy'r cwricwlwm.

## Argymhellion

**Dylai ysgolion:**

A1 Ystyried yn ofalus thema drawsbynciol gyrfaoedd a phrofiadau yn gysylltiedig â gwaith, a sut gall dysgwyr ddatblygu i fod yn gyfranwyr mentrus a chreadigol, pan fyddant yn cynllunio eu cwricwlwm newydd

A2 Ystyried sut gallant wella dealltwriaeth dysgwyr o'r gweithle trwy ddarparu ystod ehangach o brofiadau go iawn mewn partneriaeth â chyflogwyr

A3 Gwerthuso effaith partneriaethau â chyflogwyr a phrofiadau yn gysylltiedig â gwaith ar ddealltwriaeth dysgwyr o'r byd gwaith

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:**

A4 Sicrhau bod cynllunio'r cwricwlwm lleol yn rhoi ystyriaeth dda i yrfaoedd a phrofiadau yn gysylltiedig â gwaith, ac yn cynnwys cyflogwyr

**Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Gyrfa Cymru a phartneriaid eraill i:**

A5 Werthuso effaith rhaglenni Y Gyfnewidfa Addysg Busnes, Dosbarth Busnes a Syniadau Mawr Cymru

A6 Llunio arweiniad i gynorthwyo staff ysgolion i greu cysylltiadau â chyflogwyr

# Pwyllgorau rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion

## Prif ganfyddiadau

1 Mae pwyllgor rheoli UCD yn gweithio orau mewn partneriaeth â'i awdurdod lleol a phan fyddant yn rhannu gweledigaeth gyffredin ar gyfer yr UCD. Mae'r ddealltwriaeth hon ar y cyd fel arfer yn arwain at berthnasoedd gwaith cryf ac at ddisgwyliadau clir ar gyfer deilliannau dysgwyr.

2 Mae tua hanner y pwyllgorau rheoli yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda. Mae pwyllgorau rheoli yn effeithiol pan fydd rolau a chyfrifoldebau aelodau'r pwyllgor am wella eu UCD yn glir. Yn yr achosion gorau, gwna aelodau ddefnydd da o'r 'Llawlyfr ar gyfer Pwyllgorau Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion' (Llywodraeth Cymru, 2018b). Nid yw lleiafrif o bwyllgorau rheoli yn ymwybodol o'r Llawlyfr neu nid ydynt yn ei ddefnyddio yn ddigon da. Mae'r diffyg ymwybyddiaeth o'r cyhoeddiad defnyddiol hwn yn cyfrannu at arfer anghyson ar draws pwyllgorau rheoli UCDau.

3 Pan fydd pwyllgorau rheoli yn meddu ar ddealltwriaeth fanwl o'u UCD, gall aelodau herio a chefnogi arweinyddiaeth yr UCD yn dda. Mae aelodau'r pwyllgorau rheoli llwyddiannus yn adlewyrchu anghenion eu UCD, yn ogystal â bodloni gofynion rheoleiddio. Mae ehangder a phrofiad aelodau yn cryfhau dealltwriaeth y pwyllgor o anghenion eu disgyblion. Mae lleiafrif o bwyllgorau rheoli yn mynd ati i annog disgyblion i gymryd rhan yn eu gwaith, ac mae hyn yn helpu staff i gefnogi disgyblion a'u lles yn well.

4 Mae llawer o UCDau yn ei chael yn anodd recriwtio amrywiaeth eang o aelodau i'w pwyllgorau rheoli. Mae hyn yn effeithio ar ehangder y wybodaeth a'r profiad sydd ar gael i'r pwyllgor ac yn ei gwneud yn anodd dirprwyo cyfrifoldebau penodol. Mae sicrhau cynrychiolaeth rhieni yn benodol yn un o'r problemau mwy heriol wrth recriwtio.

5 Mae rheoliadau yn amlinellu cyfrifoldeb ar y cyd i'r awdurdod lleol a'r pwyllgor rheoli ddatblygu cwricwlwm ar gyfer y disgyblion. Mae UCDau a phwyllgorau rheoli llwyddiannus yn gweithio'n dda gyda'r awdurdod lleol ar yr agwedd hon. Pan fydd yr awdurdod lleol yn gweithio'n strategol gyda phwyllgor rheoli'r UCD, mae hyn yn cynorthwyo'r UCD i fod yn fwy ymatebol i anghenion ei dysgwyr yn dda. Mae'r arfer fwyaf effeithiol wedi'i seilio ar berthynas o gydweithio.

6 Yr awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb am hyfforddiant a datblygiad aelodau'r pwyllgor rheoli. Yn y pwyllgorau rheoli mwyaf effeithiol, mae'r awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol yn gweithio'n agos gydag aelodau'r pwyllgor i ddarparu cyfleoedd hyfforddi perthnasol, cyson a gwerth chweil, ond mae'r arfer hon yn digwydd mewn ychydig o UCDau yn unig. Mae angen hyfforddiant a chymorth priodol er mwyn rhoi'r newidiadau a gynigir yng Nghod Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2018b) ar waith yn llwyddiannus.

## Argymhellion

**Dylai pwyllgorau rheoli:**

A1 Ddefnyddio’r Llawlyfr ar gyfer Pwyllgorau Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion i wella eu gwaith

A2 Gweithio’n agos mewn partneriaeth â’u hawdurdod lleol, eu consortiwm rhanbarthol a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer eu UCD

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:**

A3 Ddarparu rhaglen flynyddol o gyfleoedd hyfforddiant a datblygiad ar gyfer aelodau o bwyllgorau rheoli UCDau

A4 Sicrhau bod swyddogion awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn deall rôl a swyddogaeth eu UCDau yn llawn er mwyn gwella eu cydweithio â phwyllgorau rheoli

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A5 Godi ymwybyddiaeth ymhlith yr holl bwyllgorau rheoli am y Llawlyfr ar gyfer Pwyllgorau Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion

# Cymorth effeithiol yn yr ysgol ar gyfer disgyblion sydd dan anfantais a disgyblion sy'n agored i niwed

## Prif ganfyddiadau

1 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae arweinwyr yn deall pwysigrwydd cynorthwyo disgyblion sydd dan anfantais a disgyblion sy'n agored i niwed i oresgyn rhwystrau rhag dysgu. Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, nid canolbwyntio ar yr heriau y mae disgyblion yn eu hwynebu yn unig a wna staff, ond maent yn nodi diddordebau a doniau disgyblion unigol, ac yn adeiladu ar y nodweddion cadarnhaol hyn.

2 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion ledled Cymru yn canolbwyntio'n gryf ar geisio lleihau effaith tlodi. Mae argaeledd cyllid ychwanegol yn cyfrannu at y pwyslais hwn. Er gwaetha'r cyllid, nid yw perfformiad disgyblion cPYDd gystal â disgyblion eraill o hyd. Rhyw ddwy ran o dair o hyd yw cyfran yr ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n gwneud defnydd effeithiol o'r GDD. Er bod y rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio cyllid grant i ddarparu ystod debyg o strategaethau cymorth, mae eu heffaith yn amrywio. Yn yr ysgolion sy'n defnyddio'u GDD orau, mae arweinwyr yn defnyddio'r grant yn strategol i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau a gwella eu lles - mae'r gwaith hwn yn flaenoriaeth iddynt.

3 Mae ysgolion sy'n cynorthwyo disgyblion sydd dan anfantais a disgyblion sy'n agored i niwed orau yn rhoi lles pob plentyn wrth galon eu gwaith. Yn yr ysgolion hyn, ceir ffocws cryf ar ddarparu amgylchedd diogel ac anogol lle mae disgyblon a staff yn teimlo'n gadarn.

4 Mae arweinwyr mewn ysgolion llwyddiannus yn rhoi pwys mawr ar recriwtio staff sy'n rhannu gweledigaeth eu hysgol ar gyfer annog disgyblion a meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda theuluoedd a'r gymuned. Pan fo'r strategaeth hon ar waith, mae ysgolion yn datblygu ymagwedd ysgol gyfan at gynorthwyo disgyblion sydd dan anfantais a disgyblion sy'n agored i niwed.

5 Mewn ysgolion sy'n cynorthwyo'u disgyblion sydd dan anfantais a disgyblion sy'n agored i niwed yn llwyddiannus, mae staff yn olrhain lles disgyblion unigol yn ofalus. Mae hyn yn eu helpu i nodi'n gyflym unigolion neu grwpiau o ddisgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt, a'u helpu i fynd i'r afael â rhwystrau rhag eu hymgysylltiad yn yr ysgol.

6 Mae ymchwil yn awgrymu mai addysgu yn yr ystafell ddosbarth sy'n cael y dylanwad mwyaf ar ddysgu disgyblion o'r holl ffactorau addysg, ac y bydd disgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn elwa hyd yn oed mwy na'u cyfoedion o addysgu o ansawdd uchel.

7 Mae tystiolaeth arolygu yn dangos, yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, bod disgwyliadau uchel gan athrawon o gyflawniad yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd fwyaf dan anfantais ac yn fwyaf agored i niwed. Nid ydynt yn gweld tlodi ac anfantais fel rheswm i ddisgyblion beidio â llwyddo ac maent yn ymdrechu i ddod o hyd i ymagweddau a strategaethau addysgu sy'n helpu diddymu rhwystrau i ddysgu disgyblion.

8 Mewn llawer o ysgolion llwyddiannus, mae staff wedi dylunio cwricwlwm sy'n bodloni diddordebau disgyblion ac yn ennyn diddordeb disgyblion sydd dan anfantais a disgyblion sy'n agored i niwed yn effeithiol yn eu dysgu.

9 Mae llawer o ysgolion yn cynorthwyo disgyblion sydd dan anfantais a disgyblion sy'n agored i niwed i ddatblygu'u doniau ac i ehangu'u profiadau trwy ddarparu cymorth ariannol, er enghraifft ar gyfer gwersi cerdd, gweithgareddau chwaraeon ac ymweliadau preswyl.

10 Mae presenoldeb disgyblion cPYDd yn bryder ym mhob cyfnod dysgu. Ceir bwlch mewn presenoldeb cyffredinol rhwng disgyblion cPYDd a disgyblion eraill. Mewn ysgolion cynradd, mae'r bwlch hwn yn mynd yn fwy. Mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ni fu unrhyw ostyngiad yng nghyfradd gwaharddiadau disgyblion cPYDd dros gyfnod. Mae'r disgyblion hyn yn fwy tebygol o lawer o hyd o gael eu gwahardd yn barhaol neu i gael gwaharddiadau cyfnod penodol na disgyblion eraill.

11 Mae tystiolaeth yn awgrymu bod absenoldeb, am ba reswm bynnag, ymhlith disgyblion cPYDd yn cael effaith negyddol fwy sylweddol ar eu cyrhaeddiad nhw nag ar ddisgyblion eraill. Yn aml, mae'r disgyblion hyn yn ei chael hi'n anoddach dal i fyny â'u dysgu ac yna gallant syrthio'n ôl yn eu gwaith o gymharu â'u cyfoedion.

12 Mae arweinwyr mewn ysgolion effeithiol yn sylweddoli na allant weithio ar eu pennau'u hunain i gynorthwyo disgyblion sydd dan anfantais a disgyblion sy'n agored i niwed. Mae'r ysgolion mwyaf llwyddiannus yn adnabod eu cymuned yn dda ac yn gweithio'n agos gydag asiantaethau a gwasanaethau eraill a fydd o fudd i'w disgyblion a'u teuluoedd.

### Argymhelliad

**Dylai ysgolion:**

A1 Ystyried yr arfer orau a amlinellir yn yr astudiaethau achos

## Datblygu arweinyddiaeth – astudiaethau achos o ddysgu proffesiynol ar gyfer arweinyddiaeth ysgolion

### Prif ganfyddiadau

1. Mae'r agenda polisi ddatblygol sy'n gysylltiedig â 'Cenhadaeth Ein Cenedl' (Llywodraeth Cymru, 2017a) yn cynnig strwythur cydlynus ar gyfer cynllunio datblygu arweinyddiaeth, ac ar gyfer annog cydweithio rhwng gwahanol haenau'r system addysg yng Nghymru. Mae'r seilwaith i gefnogi datblygu arweinyddiaeth wedi gwella, er enghraifft trwy greu'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, cydweithio gwell rhwng consortia rhanbarthol, diwygiadau a wnaed i'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP), a chreu safonau proffesiynol. Mae sefydliadau addysg uwch yn cyfrannu'n fwy at raglenni sy'n cefnogi ac yn datblygu arweinwyr ysgol. Mae gwaith i ddatblygu arferion ymholi ac ymchwilio proffesiynol yn cryfhau, er mai megis dechrau datblygu y maent.

2. Mae ymglymiad ysgolion yn y broses i gyd-lunio polisi cenedlaethol ynghylch datblygu arweinyddiaeth yn gryfder yn y trefniadau presennol. Mae'r bartneriaeth hon yn galluogi arweinwyr ysgol i gael dealltwriaeth well o bolisi cenedlaethol, a gweithio tuag at fodloni strategaethau cenedlaethol yn eu hysgolion. Yn aml, mae ysgolion ag arweinwyr hynod effeithiol yn darparu cymorth gwerthfawr i ysgolion eraill. Mae ychydig iawn o benaethiaid profiadol yn cyfranogi mewn rhaglenni i wella eu medrau nhw, a medrau pobl eraill, ymhellach, ond nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer yr agwedd hon ar waith wedi'i datblygu'n ddigonol.

3. Mae bron pob ysgol yn gallu elwa ar ddysgu proffesiynol, neu'n gallu ei ddarparu, ar gyfer eu staff a'u harweinwyr. Fodd bynnag, mae ansawdd a thegwch o ran cyfle I elwa ar gyfleoedd dysgu proffesiynol yn anghyson. Mae cymorth ac arweiniad ymarferol ar gyfer arweinwyr ysgol ar sut i gynllunio a gweithredu blaenoriaethau gwella yn amrywio gormod. Mae hyn yn un rheswm pam mae ansawdd yr arweinyddiaeth yn amrywiol mewn ysgolion yng Nghymru, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd. Yn benodol, nid yw'r cynnig dysgu proffesiynol ar gyfer arweinwyr ysgol wedi canolbwyntio'n ddigon da ar eu cynorthwyo i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn eu hysgolion. Mae cyfres gref o ddeunyddiau ar gael ar gyfer cynorthwyo arweinwyr ysgol i hyfforddi a mentora staff, ond ni chaiff y rhain eu rhannu'n ddigon effeithiol, ac o ganlyniad, ni all lleiafrif o arweinwyr elwa ar yr adnoddau defnyddiol hyn.

4. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr dysgu proffesiynol wedi gwneud trefniadau i werthuso rhaglenni neu ddigwyddiadau dysgu proffesiynol. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r gwerthusiadau hyn wedi canolbwyntio'n fanylach ar ddarganfod pa agweddau ar y dysgu sydd wedi bod fwyaf buddiol i gyfranogwyr. Er gwaethaf y gwelliannau hyn, nid yw llawer o ddarparwyr yn gwerthuso effaith tymor hir dysgu proffesiynol ar arweinyddiaeth.

## Argymhellion

**I wella darpariaeth ac ansawdd datblygu arweinyddiaeth, dylai consortia rhanbarthol a darparwyr dysgu proffesiynol eraill weithio gyda'i gilydd i ystyried:**

A1 Sut i gynyddu'r ffocws ar ddatblygu gallu arweinwyr i ysgogi gwelliant yn ansawdd addysgu a dysgu

A2 Sut orau i werthuso effaith rhaglenni datblygu arweinyddiaeth dros gyfnod